



Adroddiad Blynyddol

Gwasanaethau Cymdeithasol

2015 - 2016

www.blaenau-gwent.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	3
Ffeithlun	8
Cyflwyniad	11
Gwasanaethau Plant	13
Gwasanaethau Oedolion	36
Rheoli ein Busnes	59
Cofrestr Risgiau	73
Mwy na Geiriau	77
Edrych Ymlaen at 2016/2017	79

Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2015/16. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Adran wedi bod yn datblygu'r adroddiad blynyddol yma i dynnu sylw at y meysydd allweddol i'w gwella a'r sialensiau a wynebwyd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ganolbwynt i waith yr Adran hon. Nod y Ddeddf yw creu'r newid mwyaf radical i'r ffordd yr ydym yn darparu Gwasanaethau Cymdeithasol ers 1948. Mae'n canolbwyntio ar wella llesiant pobl sy'n dod at y Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am gymorth. Mae'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar wasanaethau ataliol a lleihau'r angen am ofal a chymorth. Mae'n cydnabod bod y cyfrifoldeb yn sefyll, nid yn unig yn yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, ond yn yr Awdurdod Lleol yn ehangach a gyda'n partneriaid (iechyd a'r trydydd sector yn arbennig).

Bu Blaenau Gwent yn gweithio tuag at egwyddorion y Ddeddf ers cryn amser, gan ddatblygu gwasanaethau ataliol (yn Cefnogi Pobl a Theuluoedd yn Gyntaf); annog pobl i gadw mor annibynnol â phosibl ('Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn y 21fed Ganrif') a gwaith a wnaed o ran Anabledd Dysgu (prosiect BOLD) sy'n ddull seiliedig ar systemau ac yn cyd-fynd yn glos ag egwyddorion y Ddeddf. Mae gennym gryn bellter i fynd i gydymffurfio yn llwyr, ac nid o ganlyniad i newid prosesau a gweithdrefnau yn unig y bydd newid yn digwydd ond o ganlyniad i newid diwylliannol cyflawn ynom ni ein hunain a'r cyhoedd. Mae'n ddealladwy na fydd hyn yn ymwreiddio dros nos.

Ers sawl blwyddyn mae'r adroddiad hwn wedi cynnwys y diweddaraf am y sefyllfa ariannol, lle mae'r cyfuniad o gyllidebau llai a galw cynyddol am ein gwasanaethau wedi golygu bod rhaid i ni sicrhau ein bod yn gweithio yn ddoethach i gyflawni'r gwasanaethau gorau posibl i bobl sy'n byw ym

Mlaenau Gwent. Bu pwyslais ar ein cyllid yn flaenoriaeth allweddol dros y blynyddoedd diwethaf gan ei bod yn ofynnol i'r Cyngor greu arbediadau sylweddol, a fydd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf. Er mwyn cyflawni'r arbediadau yma mae'r gwasanaeth wedi dynodi ystod o gynlluniau ac arbedion effeithlonrwydd i gyfateb i'r gostyngiad yn y gyllideb. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae arbediadau cyllideb wedi cynnwys penderfyniad i brynu rhagor o'n gwasanaeth Gofal Cartref i mewn ac ailstrwythuro ein hardaloedd gwasanaeth i gynig gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon.

Fel rhan o'r ailstrwythuro, datblygwyd Timau Gwaith Cymdeithasol Plant Ardaloedd sy'n gyfrifol am ardaloedd daearyddol er mwyn gwella cysylltiadau amlasiantaethol. O ran Gwasanaeth Cymdeithasol Oedolion mae'r cysylltiadau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cael eu gwella er mwyn siapio integreiddio yn y dyfodol.

Fel rhan o'n hagenda cydweithio gyda phartneriaid sefydlwyd

dwyrain ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y Dwyrain a'r Gorllewin i wella cyfathrebu, lleihau dyblygu a lleihau cymhlethdod cysylltu â gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r adran wedi bod yn gweithio yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd o'n blaenau.

Mae'r sefyllfa bresennol o ran amrywiol Adrannau'r Ddeddf yn cynnwys:


- **Hyfforddiant** – Gweithio gyda Cyngor Gofal Cymru i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant. Y cohort cyntaf o bobl i gael eu hyfforddi fydd y Rheolwyr Tîm, Ymarferwyr Uwch a'r rhai ar y rheng flaen (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth).
- **Gwybodaeth Cyngor a Chymorth** – Gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Cyfathrebu i ddatblygu dull "drws ffrynt" newydd – mae hyn yn cyd-fynd â gwaith

sy'n cael ei wneud ar draws y Cyngor ar y rhaglen Drawnewid Cwsmeriaid a Digidol.

- **Asesu/ Cynlluniau Gofal a Chymorth** – Mae Tîm Cymuned y Dwyrain wedi treialu dull newydd o asesu trwy ofyn y cwestiwn "beth sydd o bwys i chi" i ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn creu dull sy'n canolbwyntio ar y deilliant.
- **Plant Sy'n Derbynn Gofal** – Yr her yng nghyswllt Plant Sy'n Derbynn Gofal fydd deall sut mae'r Ddeddf wedi newid y ddeddfwriaeth flaenorol a sicrhau bod y gweithdrefnau presennol yn eu lle a bod ein harferion yn cydymffurfio â hyn.
- **Diogelu** – Bydd rhagor o newidiadau o ran Diogelu Oedolion a chynhaliwyd hyfforddiant i'r staff perthnasol.
- **Codi tâl** – Cyfrannu at y grwpiau technegol a rhoi adroddiadau ar newidiadau i'r polisi codi tâl.

Mae'r Adran wedi gwneud cymaint ag sy'n bosibl i fod yn barod ar gyfer y Ddeddf ac mae'n amlwg y bydd newid mor radical yn gofyn am amser i'w weithredu ac i ymwreiddio.

Un datblygiad cadarnhaol iawn eleni o ran y Ddeddf oedd y cytundeb gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r System Wybodaeth Gofal Cymunedol a fydd yn cymryd lle Draig, ond dylai hefyd roi cyfle am un system ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol.



Dyma rai o uchafbwyntiau 2015/16:

Perfformiad rhagorol gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid

Dyfarnwyd gradd borffor i Wasanaeth Troseddau Ieuentid Blaenau Gwent/Caerffili gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid i gydnabod eu perfformiad eithriadol. Y radd hon yw'r lefel uchaf posibl y gellir ei dyfarnu i Wasanaeth Troseddau Ieuentid, gyda gwasanaeth Blaenau Gwent/Caerffili yr unig un yng Nghymru i'w derbyn.

Gwelwyd gostyngiad dros chwe mlynedd yn nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi dod i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol am y tro cyntaf. Dengys y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Bwrdd, rhwng Ionawr 2014 a Rhagfyr 2014, bod gostyngiad o 39.4% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gyfradd aildroseddu hefyd wedi gostwng o 32.3% i 29.6%, fel y dangoswyd gan y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd.

Dathliad Gwobrau Opsiynau Cymunedol 2015

Roedd Opsiynau Cymunedol yn falch iawn o gynnal eu trydydd Dathliad Gwobrau Cyrhaeddiad. Trwy gydol y flwyddyn cymerodd defnyddwyr y gwasanaeth ran mewn 25 categori cyrhaeddiad, cyflwynwyd 144 o wobrau i ddefnyddwyr gwasanaeth gan yr Aelod Gweithredol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Maer Blaenau Gwent.

Gwobrau Plant sy'n Derbynn Gofa

Ar 20 Tachwedd 2015 dathlwyd llwyddiant Adran Plant sy'n Derbynn Gofal Blaenau Gwent mewn digwyddiad sydd wedi datblygu yn un blynyddol. Daeth nifer dda i'r seremoni, a gynhaliwyd yn Sefydliad Glynebwy, gydag amrywiaeth fawr o wobrau yn cael eu rhoi am lwyddiant academaidd a hefyd i blant a phobl ifanc oedd wedi dangos cynnydd mewn agweddau eraill o fywyd ysgol.

Prosiectau Effeithlonrwydd Ariannol Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent

Mae'r Cyngor yn ymwreiddio rhaglen drawsnewid i wella'r modd y cyflawnir gwasanaethau ac i arbed arian. Fel rhan o hyn mae nifer o dimau tebyg ym mhob maes gwasanaeth wedi cael eu cyfuno yn dimau canolog.

Mae hyn yn cynnwys rheoli perfformiad, swyddogaethau ariannol gan gynnwys rheoli cyllideb, casglu incwm a rheoli dyled, Datblygu Gweithlu a Chefnogaeth Fusnes.



Liz Majer
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Cymdeithasol




Y Cynghorydd Haydn Trollope
Aelod Gweithredol -
Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'n galonogol cydnabod y gwaith da sydd wedi cael ei wneud yn yr adran mewn cyfnod pan fydd adnoddau yn prinhaus. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd pwysau cynyddol arnom i gyflawni gwasanaethau o ansawdd i wella canlyniadau i breswylwyr Blaenau Gwent dros y flwyddyn nesaf. Bydd ein pwyslais ar gyflawni hyn gan fod yn ymwybodol o'r gofynion ar ein gweithlu.

Ffeithlun

Mae'r ffeithlun isod yn dangos gwybodaeth allweddol am y modd y mae Gwasanaethau Cymdeithasol wedi perfformio yn 2015/16 mewn cymhariaeth â 2014/15.



Mae'r ganran o atgyfeiriadau **Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed** a gwblhawyd pan reolwyd y risg wedi parhau yn uwch na'r targed ar **91.1%**.



Gofal Cymunedol

TGwelodd y gyfradd o bobl hyn 65+ sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned welliant o **120.89** i **108.40** yn 2015/2016.


Rhyddhau o'r Ysbyty

Gwelodd y nifer o bobl a brofodd oedi cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol welliant gyda'r nifer yn gostwng o **20** yn 2014/15 i **5** yn 2015/16.

Teuluoedd yn Gyntaf/ Dechrau'n Deg

434 yw'r nifer o rieni a ymunodd â rhaglen rianta yn 2015/16 mewn cymhariaeth â **317** y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r nifer o rieni sy'n defnyddio Dechrau'n Deg neu sy'n cael eu hatgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf sy'n cael eu cefnogi i symud ymlaen i gael eu cyflogi wedi gwella o **185** yn 2014/15 i **228** yn 2015/16.



Mae'r ganran o adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a gwblheir o fewn yr amserlen statudol wedi parhau yn gyson uchel ar **96.7%**.



Mae'r ganran o Blant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi cael 3 neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn wedi gwella gyda'r ffigwr yn gostwng o **15.4%** yn 2014/15 i **12.4%** yn 2015/16.



Mae'r nifer o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a chynadleddau amddiffyn plant adolygu a gynhaliwyd o fewn yr amserlen ofynnol yn parhau **dros 95%**.



Technoleg Gynorthwyol

Oedolion sy'n gleientiaid sydd wedi eu hasesu yn ystod y flwyddyn sy'n cael technoleg gynorthwyol electronig fel rhan o becyn o ofal wedi cynyddu o **274** yn 2014/15 i **279** yn 2015/16.



93.8% o ddefnyddwyr y gwasanaeth eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Plant sy'n Derbyn Gofal




93.76% Presenoldeb Ysgol Uwchradd yn 2015/16.
96.93% Presenoldeb Ysgol Gynradd yn 2015/16.



Amddiffyn Plant

Y nifer o blant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth 2016 oedd **71** gyda **100%** o'r adolygiadau amddiffyn plant yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen statudol.



74.6% o oedolion ein bod wedi helpu iddynt deimlo yn ddiogel.



Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol 2015/16 yn trafod y cyfnod mis Ebrill 2015 hyd fis Mawrth 2016. Mae'n cynnig trosolwg cytbwys o wybodaeth am berfformiad, ystadegau, astudiaethau achos, llwyddiannau a sialensiau i ddangos yr effaith y mae ein gwaith wedi ei gael ar fywydau unigolion.

Bydd y wybodaeth sydd yn yr adroddiad o ddiddordeb i gynulleidfa eang sy'n cynnwys dinasyddion Blaenau Gwent, pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gofalwyr, rhanddeiliaid allweddol, asiantaethau partner a rheoleiddwyr.

Ynglyn â Blaenau Gwent

Mae'r ardal yn cynnwys tri chwam penodol, sy'n cynnal y pum prif dref, sef Abertyleri, Nantyglo a Blaenau, Brynmawr, Glynebwy a Thredegar.

O'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, Blaenau Gwent yw'r ail leiaf gydag amcangyfrif poblogaeth o 69,674. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth

ar gyfartaledd ar draws holl awdurdodau lleol Cymru o 141,000 a chyfartaledd o 74,000 ar draws awdurdodau tebyg (Ynys Môn, Ceredigion a Merthyr Tudful). Disgwylir i boblogaeth Blaenau Gwent ostwng gan dros 6% erbyn 2036.

Mae Blaenau Gwent yn ardal gyfoethog o ran hanes economaidd a chymdeithasol ond mae dirywiad y diwydiannau trwm a fu wedi gadael lefelau uchel o ran tlodi, diffyg iechyd a diweithdra.

Mae gan yr ardal rai o'r cyfraddau amddifadedd cymdeithasol ac economaidd uchaf ar draws Cymru. Mae 47% o ardaloedd lleol Blaenau Gwent ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae gan Blaenau Gwent gyfradd uwch o gleientiaid gofal cymdeithasol sy'n oedolion i bob 1,000 o'r boblogaeth nag awdurdodau cymharol. Roedd y gyfradd yn uwch na chyfartaledd Cymru hefyd. Roedd y gyfradd o blant i bob 1,000 o'r boblogaeth

yn uwch na'r gyfradd ar gyfer awdurdodau cymharol ac yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru gyfan.

Roedd Blaenau Gwent yn rhoi blaenoriaeth i 21% yn rhagor o wariant ar ddarparu gofal cymdeithasol na'r lefel a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwariodd yr awdurdodau cymharol, ar gyfartaledd, 24% yn fwy.

Yn 2014/15, cynyddodd Blaenau Gwent gyfanswm y nifer o staff gwaith cymdeithasol y mae'n eu cyflogi oherwydd cynnydd yn y nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal. Am yr un cyfnod roedd y nifer o staff gwasanaethau cymdeithasol a gyflogwyd ar draws Cymru wedi gostwng.

Yn unol â'r tueddiadau cenedlaethol mae proffil demograffig Blaenau Gwent yn newid. Mae amodau byw gwell a datblygiadau mewn gwyddoniaeth feddygol yn golygu bod pobl yn byw yn hwy nag yn nechrau'r ganrif ddiwethaf; ond mae disgwyliad oes ym Blaenau Gwent 10 mlynedd yn llai na'r

awdurdod sy'n gymydog i ni yn Sir Fynwy.

Wrth i ni ddechrau gweld effaith y newidiadau demograffig yma ar ein gwasanaethau, rydym wedi bod yn gweithredu dulliau mwy blaengar o weithio er mwyn bodloni'r galw cynyddol yma mewn cyfnod o ddyraniadau cyllideb sy'n gostwng gan Lywodraeth Cymru.



Ynglyn â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r adran yn cynnwys tri maes gwasanaeth fel yr amlygir isod.

Gwasanaethau Plant

Cylch gorchwyl y gwasanaeth yw sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi eu hasesu yn cael eu bodloni trwy gefnogi teuluoedd, a gweithio ar y cyd gyda phartneriaid allweddol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddiodef niwed a dim ond pan fydd yn hollol angenrheidiol ceisio gofalu am blant a phobl ifanc tu allan i'w cartref teuluol.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys: Asesu, Cynllunio Gofal, Adolygu, Diogelu, 14+, Plant ag Anableddau, Maethu, Mabwysiadu, Gwasanaeth Troseddau Ieuentid, Dechrau'n



Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Blynnyddoedd Cynnar a Chwarae.

Gwasanaethau Oedolion

Cylch gorchwyl y gwasanaeth yw amddiffyn oedolion agored i niwed sy'n 18 oed a hyn. Mae gweithio ar y cyd gyda phartneriaid allweddol yn galluogi oedolion agored i niwed i fyw bywydau annibynnol sy'n rhoi boddhad sy'n cynnwys aros yn eu cartref eu hunain am cyn hired â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys: Asesu, Rheoli Gofal, Gwasanaethau Atal a Darparu gan gynnwys Opsiynau Cymunedol (Gwasanaethau Dydd a phrosiectau gwaith), Gofal Cartref, Gofal Preswyl, Byw â Chefnogaeth, Gofal Seibiant a Chefnogi Pobl.

Rheoli Busnes

Cylch gorchwyl y gwasanaeth yw cefnogi gwasanaethau a phrosesu rheng flaen gan sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu o safon uchel ac yn cynnig gwerth am arian. Mae'r gwasanaeth yn arwain ar agweddau o Dechnoleg a Systemau Gwybodaeth, Contractau a Chomisiynu, Taliadau Uniongyrchol ac yn cefnogi Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd.

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau

Each year an assessment of work undertaken is completed by the Children's, Adult and Business Services. The following sections are split per service and show the priorities for 2015/16, along

with a high level summary self-assessment. Further detail of key areas of work is detailed throughout the rest of this section. Our self assessment uses the BRAG rating –

Statws BRAG	Meaning
Glas	Camau gweithredu wedi eu cwblhau
Gwyrdd	Dim problemau, y camau gweithredu ar y ffordd i gael eu cwblhau erbyn y dyddiad dod i ben a gynlluniwyd
Ambr	Mân broblemau a all atal y camau gweithredu rhag cael eu cwblhau erbyn y dyddiad dod i ben a gynlluniwyd
Coch	Problemau sylweddol a fydd yn atal y camau gweithredu rhag cael eu cwblhau erbyn y dyddiad dod i ben a gynlluniwyd

Sylwer bod rhai blaenoriaethau yn cael eu cofnodi fel rhai sydd wedi eu cwblhau yn rhannol gan eu bod yn flaenoriaethau tymor hir a fydd yn parhau yn 2016/17. Mae'n bwysig nodi hefyd, er bod nifer o flaenoriaethau wedi cael

eu cyflawni eleni oherwydd natur y flaenoriaeth a'n hymroddiad tymor hir i ymyrryd ac atal yn gynnar, hyrwyddo annibyniaeth a diogelu, bydd nifer o'r blaenoriaethau yma yn cael eu datblygu ymhellach yn 2016/17.

Gwasanaethau Plant

Gwasanaethau Plant	
Teitl Blaenoriaeth	Hunan Werthusiad
Parhau i gryfhau gweithio mewn partneriaeth a dynodi gwell deilliannau i deuluoedd sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Blynnyddoedd Cynnar, Chwarae a Gwasanaethau Cymdeithasol.	Cyflawnwyd – Eleni gwelwyd cysylltiadau llawer cryfach yn datblygu rhwng yr holl dimau dan y portffolio Gwasanaethau Plant sydd wedi gwella gweithio mewn partneriaeth. Mae tystiolaeth o hyn yn y cynnydd yn yr atgyfeiriadau o'r timau ardal at Teuluoedd yn Gyntaf, a datblygiad prosiect treialu yn elfen allestyn Dechrau'n Deg yn cael ei ddefnyddio i fabanod a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant.

Yr holl dimau i gyfrannu at wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.	Cyflawnwyd – Mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol wedi dod yn un o'r gyrwyr gwirioneddol i wella canlyniadau i Blant sy'n Gadael Gofal. Mae gan y Bwrdd gynrychiolwyr o nifer o asiantaethau arno ynghyd â'r Aelod Gweithredol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cynllun gweithredu o arolwg AGGCC wedi cael ei weithredu ac mae wedi golygu creu proffil ar gyfer ein poblogaeth o Blant sy'n Derbyn Gofal i ddynodi'r rhai sy'n dangos ymddygiad agored i niwed/perylus.
Yr holl Dimau i gyflawni gwasanaethau sy'n diogelu plant a phobl ifanc.	Cyflawnwyd - Mae'r Grwp Dysgu Gwersi ac Adolygu Lleol sy'n dod dan Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru wedi cyfarfod yn gyson yn ystod 2015/16 ac mae'n parhau i fwynhau presenoldeb gan nifer o asiantaethau. Mae'r grwp wedi addasu i'r newidiadau yn y blaenoriaethau gan y Bwrdd a rhoi mwy o bwyslais ar ymarferwyr. Cynhaliodd Estyn ail arolygiad ar yr Awdurdod Lleol yn ddiweddar a barnwyd bod Argymhelliad saith, oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu, yn dda.
Mae'r holl Dimau yn cyfrannu at wella sefydlogrwydd lleoliadau i Blant sy'n Derbyn Gofal.	Cyflawnwyd - Fel rhan o ymdrech Llywodraeth Cymru i wella deilliannau i Blant sy'n Derbyn Gofal, maent wedi cefnogi'r trydydd sector wrth ymgeisio am gyllid o'r Loteri Fawr i gyflwyno rhaglen hyfforddi 'Hyder mewn Gofal' i ofalwyr maeth dros Gymru. Mae rhai o ofalwyr maeth Blaenau Gwent yn awr yn dilyn y rhaglen hyfforddi 12 wythnos hon. Mae'r hyfforddiant ar sail ymchwil ac mae'n dangos cynnydd o ran sefydlogrwydd lleoliadau a gwell canlyniadau addysgol i blant.
Bydd Blaenau Gwent fel gwesteigr Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru (SEWAS) yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015	Cyflawnwyd - Mae Tîm Rhanbarthol SEWAS wedi llwyddo i ddwyn gweithlu at ei gilydd o bum awdurdod lleol gydag arferion, gweithdrefnau a diwylliannau amrywiol.
Sicrhau bod y gweithlu yn barod i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	Cyflawnwyd yn Rhannol - Mae hyfforddiant ar egwyddorion y Ddeddf ar y gweill, ond, mae hyfforddiant llawer mwy trwyadl yn ofynnol dros y 12 mis nesaf i ddeall a gweithredu'r gofynion dan y codau ymarfer sy'n ymwneud â'r Ddeddf.

Gwasanaethau Plant

Categori: Ymateb i Angen - Cynnydd a Sialensiau

Cynnydd a wnaed yn 2015/16

Cynhaliwyd adolygiad o'r ddarpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn gynnar yn 2016, gyda'r bwriad o ailfodelu'r gwasanaeth yn ystod 2016/17. Bwriad hyn oedd gwella sgiliau'r staff i gynyddu hyder wrth reoli achosion mwy cymhleth nad ydynt yn bodloni'r trothwy statudol o ran ymyrraeth. O ganlyniad i'r adolygiad cychwynol mae dadansoddiad o anghenion mwy trylwyr ar sail gwybodaeth perfformiad y tair blynedd diwethaf yn cael ei gynnal yn awr. Mae hyn ochr yn ochr â gwella sgiliau gweithwyr trwy secondiad i'r timau ardal i gynyddu eu gwybodaeth a'u profiad.

Cyflwynwyd Dechrau'n Deg yn llwyddiannus yn Hilltop yng Nglynebwy, Cwm a Brynithel yn ystod y flwyddyn ariannol. Cynyddodd hyn y nifer o blant sy'n gymwys ar gyfer gwasanaethau Dechrau'n Deg o 966 ar ddiwedd 2014/15 i 1,071 ar ddiwedd 2015/16. Anelwyd elfen allestyn Dechrau'n Deg at fabanod y mae eu henwau yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r gyfradd atgyfeirio at Teuluoedd yn

Gyntaf ar ei uchaf o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnig tystiolaeth bod y gwaith i godi ymwybyddiaeth y gweithlu wedi gweithio yn ystod 2015/16.

Mae'r prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn awr yn defnyddio'r un gronfa ddata ar gyfer cofnodi ag y mae Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Bwriad hyn yw galluogi gwell rhannu ar wybodaeth a datblygu adroddiad monitro chwarterol cadarn i'r Uwch Dîm Rheoli Plant.

Mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol wedi dod yn un o'r gyrwyr gwirioneddol i wella canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal. Mae gan y Bwrdd gynrychiolwyr o nifer o asiantaethau arno ynghyd â'r Aelod Gweithredol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.

Eleni gwelwyd y deilliannau gwell canlynol:

- Gostyngiad yn nifer a hyd gwahardd maith a thymor penodol yn y flwyddyn academaidd 2014/15. Gostyngwyd cyfanswm y dyddiau o 131 i 47.5in academic year 2014/15.

- Systemau yn eu lle i fonitro deilliannau i'r rhai sy'n dangos ymddygiad peryglus/agored i niwed fel cam-fanteisio ar blant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol.
- Mae Plant sy'n Derbyn Gofal a adawodd addysg ffurfiol yng Ngorffennaf 2014 yn cael eu holrhain i sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau eu bod yn parhau i fod ynghlwm ag addysg, hyfforddiant neu waith.
- Yn dilyn arolwg AGGCC o Blant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n dangos ymddygiad peryglus/agored i niwed, paratowyd a gweithredwyd cynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn. Y prif lwyddiannau oedd:
 - Ailsefydlu'r Fforwm Plant sy'n Derbyn Gofal i gryfhau eu llais wrth i wasanaethau gael eu datblygu;
 - Model asesu risg newydd wedi ei mabwysiadu a hyfforddiant gorfodol yn digwydd; ac
 - Adroddiad chwarterol ar faterion ymarferol a godwyd gan Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cael ei

gyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli yn y Gwasanaethau Plant.

Argymhellion o ymchwil a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Eiriolaeth leuenctid Cenedlaethol wedi cael eu gweithredu yn rhannol. Cynhaliwyd gweithdai i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol, a fydd, yn eu tro, yn eu helpu i symud ymlaen o ofal maeth yn llwyddiannus pan fyddant yn dewis gwneud hynny. Gwnaed penderfyniad i ddod â'r gweithwyr cyswllt yn ôl at ei gilydd fel un tîm yn hytrach na thaenu'r adnodd trwy'r timau ardal. Bydd hyn yn cyflawni gwell dealltwriaeth o anghenion cyswllt Plant sy'n Derbyn Gofal a'u rheoli a chynnig dull mwy cyson.

Mae Rheolwyr Tîm ac Uwch Ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth gychwynnol ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Tîm Perfformiad Corfforaethol i sicrhau bod systemau yn eu lle o Ebrill 2016 i gasglu'r gofynion dangosyddion perfformiad newydd.

Fel rhan o'r agenda corfforaethol i symud y ffrwd gwaith digidol i gwsmeriaid ymlaen, bu Rheolwyr Gwasanaeth yn allweddol wrth sicrhau bod y drws ffrynt newydd at yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r Ddeddf wrth sicrhau bod gofynion gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu hymwreiddio.

Sialensiau yn 2015/16

Gwelwyd parhad yn y cynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau at Teuluoedd yn Gyntaf. Arhosodd y nifer o atgyfeiriadau at Wasanaethau Cymdeithasol yn gyfartal â'r flwyddyn flaenorol; ond, mae'r nifer o achosion sy'n cael eu rhoi gerbron y llys a'r niferoedd o Blant sy'n Derbyn Gofal wedi cynyddu'n sylweddol. Arweiniodd hyn at gytundeb gan y Tîm Rheoli Corfforaethol i ddarparu adnoddau gwaith cymdeithasol ychwanegol gyda chyfyngiad amser.

Bu'r nifer o deuluoedd a atgyfeiriwyd at y Gwasanaethau Cymdeithasol a gymerodd Teuluoedd yn Gyntaf, nad ydynt wedyn yn bodloni'r meini prawf am wasanaethau statudol, yn isel iawn gyda dim ond 11% am y flwyddyn hyd yn hyn. Mae angen deall

y rhesymau am hyn i hyrwyddo mwy o ddefnydd o wasanaethau i fodloni anghenion ar lefel is.

Mae'r nifer o raglenni rhianta a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn wedi gostwng, er gwaethaf y ffaith bod Tîm Rhianta penodol yn ei le. Y rhesymau mwyaf dros atgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf yw rhianta. Yr her ar gyfer 2016/17 fydd cynyddu'r nifer o raglenni rhianta a gyflwynir, a deall pam bod gostyngiad wedi bod yn y cyflawni trwy gydol 2015/16.

O ran gwella deilliannau i Blant sy'n Derbyn Gofal, er gwaethaf peth cynnydd da ac i systemau gael eu gosod i olrhain a monitro cynnydd ar draws y gwasanaeth, yr her yn awr yw dangos tystiolaeth ddiriaethol o'r modd y mae'r gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth.

The following areas will require this consideration throughout 2016/17:

- Gostyngiad yn y risg o gam-fanteisio rhywiol trwy'r ymyrraeth a ddarperir;
- Gweld gostyngiad mewn ymddygiad niweidiol yn rhywiol trwy'r ymyrraeth a ddarperir;
- Developing a clear pathway

- Datblygu llwybr clir o gymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal i gael mynediad at addysg, hyfforddiant a gwaith;
- Sicrhau bod pob unigolyn 16 ac 17 oed yn cael llety addas i fodloni ei anghenion trwy beidio defnyddio Gwely a Brecwast ond fel y dewis olaf un; a
- Gwella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â Phlant sy'n Derbyn Gofal, y rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr maeth a'u cynnwys i wella'r modd y cyflawnir gwasanaeth.

Mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n derbyn gofal wedi creu her wirioneddol i allu canfod lle i Blant sy'n Derbyn Gofal gyda gofalwyr Blaenau Gwent. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y defnydd o Ddarparwyr Annibynnol sydd yn ddewis drytach ond nid yn un gwell o angenrheidrwydd.

Mae'r Adran wedi gallu canfod llety i nifer o grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd a oedd wedi eu gosod i gychwyn gyda'i gilydd mewn gofal maeth. Ond, oherwydd ei bod yn dod yn amlwg bod eu hanghenion yn gymhleth iawn, arweiniodd hyn at eu symud.

Oherwydd mai dim ond yn ddiweddar y mae'r codau ymarfer yng nghyswllt Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cael eu cyhoeddi, mae wedi bod yn anodd deall a datblygu'r hyn fydd yn newid dan y Ddeddf. Bydd datblygu dealltwriaeth fanylach o'r codau ymarfer yn allweddol trwy gydol 2016/17.

Categori: Diogelu - Cynnydd a Sialensiau

Mae gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb statudol am ddiogelu yn yr Awdurdod Lleol. Mae diogelu plant a phobl ifanc yn parhau yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ac yn elfen allweddol o fusnes craidd Gwasanaethau Plant. Mae risg fawr i blant Blaenau Gwent a hefyd i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd os na fydd diogelu yn cael ei gyflawni yn gywir. Mae'n parhau yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd wythnosol y Tîm Rheoli Corfforaethol, mae ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac, fel y nodwyd yn ein cynnydd am eleni, mae gweithio aml-ddisgyblaeth yn parhau i fod yn sylfaenol wrth ymdrin â materion

diogelu. Mae'r Grŵp Dysgu ac Adolygu Lleol sydd dan Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru wedi cyfarfod yn gyson yn ystod 2015/16 ac mae'n parhau i fwynhau presenoldeb gan nifer o asiantaethau.

Mae'r grŵp wedi addasu i'r newidiadau yn y blaenoriaethau gan y Bwrdd a rhoi mwy o bwyslais ar ymarferwyr.

Cynhaliodd Estyn ail arolygiad ar yr Awdurdod Lleol yn ddiweddar a barnwyd bod argymhelliad saith, oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu, yn dda, a oedd yn llwyddiant rhagorol o ganlyniad i waith caled pawb.

Mae'r Cyd-bwyllgor Craffu Diogelu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod bob tymor gyda thri chyfarfod yn cael eu cynnal yn flynyddol. Mae systemau yn eu lle i roi adroddiad am weithgaredd diogelu pob ysgol yng nghyswllt y nifer o atgyfeiriadau Diogelu Plant a wnaed at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Oherwydd y lefel yma o wybodaeth mae'r Rheolwr Diogelu Addysg yn gallu targedu ysgolion nad ydynt yn atgyfeirio i

archwilio'r rhesymau pam.

Datblygwyd fîm rhanbarthol SEWAS yn Ebrill 2014. Mae'r sialensiau wedi parhau o ran dwyn gweithlu at ei gilydd o bum awdurdod lleol gydag arferion, gweithdrefnau a diwylliannau amrywiol; ond, mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddangos cynnydd da. Dywed cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru y dylai gymryd wyth mis o'r ymholiad cyntaf hyd at yr amser y cymeradwyir unigolyn i fabwysiadu. Cyfartaledd yr amser a gymerir yn SEWAS yw saith mis. Mewn rhanbarthau eraill ar draws Cymru cyfartaledd yr amser a gymerwyd rhwng i blentyn ddod yn un sy'n derbyn gofal i gael ei roi i'w fabwysiadu oedd 16.8 mis.

Cyn datblygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol cyfartaledd yr amser ar draws Cymru oedd 26 mis. Mae'r gostyngiad hwn o ran amser aros yn llwyddiant sylweddol yn y rhanbarth. Cynhaliwyd adolygiadau o wahanol swyddogaethau SEWAS sydd wedi arwain at aildrefnu adnoddau i fodloni anghenion y gwasanaeth yn well. Mae hyn wedi cynnwys datblygu swyddi Uwch

Ymarferwyr a dyrannu amser gwaith cymdeithasol i gefnogi'r fîm cymorth mabwysiadu. Bwriad hyn yw ymdrin ag anghenion plant sydd wedi eu mabwysiadu yn gynnar ac atal y lleoliad rhag chwalu.

Dan y Ddeddf mae'n ofynnol i'r rhanbarth sefydlu pwyllgor rheoli i oruchwylio gwaith y gwasanaeth rhanbarthol. Mae hyn yn ei le ac mae wedi cyfarfod yn chwarterol ers 2014. Mae cynrychiolwyr o nifer o asiantaethau yn dod yno gyda chyfraniad mawr gan iechyd.

Sialensiau yn 2015/16

Mae'r holl dimau wedi dilyn y Gweithdrefnau Diogelu Plant i Gymru Gyfan yn gyson trwy gydol y flwyddyn. Arweiniodd hyn, gyda ffactorau eraill, at gynnydd o 50% yn yr achosion sy'n mynd gerbron y llys rhwng Ebrill a Rhagfyr 2015 oherwydd pryderon am ddiogelu. Arweiniodd hyn yn ei dro at gynnydd sylweddol yn ein niferoedd o blant sy'n derbyn gofal o 145 i 188. Mae'r cynnydd hwn mewn gwaith statudol wedi lleihau'r gallu i symud datblygiadau gwasanaeth ymlaen fel archwilio cyfraniad asiantaethau amrywiol at

gyfarfodydd strategol ac ehangu'r proffilio ar blant sy'n dangos ymddygiad agored i niwed tu hwnt i'n poblogaeth o blant sy'n derbyn gofal. Mae cynnydd yn y baich gwaith yn anochel yn cynyddu'r pwysau ar y gweithlu. Yr her wrth symud ymlaen i 2016/17 fydd cynnal gweithlu sefydlog.

Fel rhanbarth mae'r gwasanaeth SEWAS yn dal yn ifanc iawn. Mae'r wybodaeth am berfformiad sy'n cael ei gasglu yn genedlaethol yn helpu rhanbarthau i ddeall y farchnad ar gyfer lleoliadau mabwysiadu. Mae'r mwyafrif o fabwysiadwyr am fabwysiadu babanod; ond mae'r plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu yn blant hyn a grwpiau o frodyr a chwiorydd. Mae hyn yn her gan fod diffyg cyfatebiaeth yn y farchnad.



Categori – Cwynion a Chanmoliaeth 2015/16

T Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i'w defnyddwyr; ond er gwaethaf y bwriadau gorau, mae'n cael ei gydnabod bod pethau yn gallu mynd o chwith weithiau ac mae'r weithdrefn gwynion yn rhoi cyfle i bobl leisio eu pryderon os a phan fyddant yn anfodlon ar y gwasanaeth

Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd yn 2015/16 oedd 32, o' rhain:

- Derbyniwyd a datryswyd 14 cyn pen 24 awr;
- Derbyniwyd 17 ar gam 1, a datryswyd 14 ohonynt; a
- Roedd 3 yn dal i gael eu hymchwilio ar ddiwedd y flwyddyn.

O'r 17 cwyn Cam 1 a dderbyniwyd:

- Cwblhawyd 5 yn yr amserlen;
- Cwblhawyd 9 tu allan i'r amserlen; a
- Throsglwyddwyd 3 ymlaen i 2016/17.

Derbyniwyd un gwyn cam 2 ac roedd hon hefyd yn dal i gael

ei hymchwilio ar ddiwedd y flwyddyn.

Natur y Cwynion

Roedd natur y cwynion a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Diffyg cyfathrebu, cefnogaeth ac ymgynghori gyda rhieni plant sy'n derbyn gofal;
- Anfodlon ar y gwasanaeth a gafwyd;
- Anfodlon ar y ffordd y siaradwyd â hwy;
- Ddim yn teimlo eu bod yn cael gwrandawriad;
- Y berthynas rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r rhiant yn chwalu gan arwain at gais am weithiwr cymdeithasol newydd; a
- Diffyg cyfathrebu o ran newidiadau arfaethedig mewn staff gofal cymdeithasol yn mynychu adolygiadau blynyddol a lleoliadau maeth plant.

Gwersi a ddysgwyd/ Camau a gymerwyd

- Ailadrodd wrth y staff mewn cyfarfodydd fîm pa mor bwysig yw cyfathrebu cyson a chllir rhwng y gweithiwr, y plentyn a'r rheini.

- Atgoffa staff y dylent gael trafodaethau gyda gofalwyr maeth, ymlaen llaw o ran pwy fydd yn dod i adolygiadau blynyddol a diben eu presenoldeb.
- Trefnwyd hyfforddiant i staff ar sut i ymdrin â gwrthdaro mewn teuluoedd ac o ran prosesau a gweithdrefnau yn y llys.

Gwella Gwasanaethau

Mae'r Uwch Reolwyr yn cymryd cwynion yn ddifrifol iawn ac maent yn sicrhau bod argymhellion sy'n cael eu dynodi fel rhan o'r ymchwiliadau yn cael eu gweithredu er mwyn rhoi gwybodaeth i/hyfforddi staff a pharhau hefyd i wella gwasanaethau.

Nifer y Cwynion a dderbyniwyd - 3 blynedd ddiwethaf

Cwynion Gwasanaethau Plant		
2013/14	2014/15	2015/16
19	27	18

Nifer y cwynion a dderbyniwyd - 3 blynedd ddiwethaf

Mae Gwasanaethau Plant yn croesawu adborth positif a chanmoliaeth ac yn defnyddio'r wybodaeth i wella ein gwasanaethau.

Canmoliaeth Gwasanaethau Plant		
2013/14	2014/15	2015/16
16	6	16

Canmoliaeth Gwasanaethau Plant

Roedd natur y ganmoliaeth a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Diolch i'r staff am fod yn wych ac am wrando;
- Canmoliaeth am ansawdd y llyfrau stori bywyd;
- Diolch ar ran y plant am yr holl waith a byddant yn gweld colli'r ymweliadau;
- Diolch am eich cefnogaeth a'r berthynas yr ydych wedi ei ffurfio gyda'm mab sydd ag awtistiaeth;
- Canmoliaeth am ymwneud â'r teulu a'r deiliant; ac
- Adborth gan gyfreithwyr am yr arfer proffesiynol.



Astudiaethau Achos

Wythnos Gadawyr Gofal - Digwyddiad 'Dragons Den 14+


Cynhaliodd Tîm 14+ Blaenau Gwent eu Digwyddiad Gadawyr Gofal cyntaf erioed yn ystod yr Wythnos Gadawyr Gofal Genedlaethol. Roedd hyn yn llwyddiant mawr gyda nifer dda iawn o bobl ifanc yno a gymerodd ran yn wych trwy gydol y prynhawn.

Nod y digwyddiad oedd ymgynghori â phobl ifanc am eu gwasanaeth cynghorydd personol, ac iddynt ddatblygu taflen i blant iau sy'n derbyn gofal i roi gwybod iddynt am y gwasanaeth hwn.

Panel 'Dragon's Den' oedd yn beirniadu'r taflenni oedd yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol a'n Cyfarwyddwr.

Edrychwn ymlaen at gynhyrchu'r daflen fuddugol yn y Flwyddyn Newydd.

"Diolch am eich cefnogaeth a dweud wrth bobl sut yr wyf yn teimlo... Mae fy nhad-cu a mam-gu yn dod i weld cyflwyniad yr ysgol yn awr"



Pythefnos Maethu

Ar 12 Mehefin cwblhaodd Tîm Lleoli Blaenau Gwent daith gerdded i dynnu sylw at faethu ar gyfer y Pythefnos Maethu.

Trefnwyd y daith ar y cyd gyda'r Rhwydwaith Maethu.

Cofrestrodd nifer fawr o unigolion ar gyfer y daith. Fe wnaethom ddefnyddio thema Hawaiaidd i godi rhagor o ymwybyddiaeth. Roedd y rhain yn cynnwys staff o Wasanaethau Plant Blaenau Gwent, Staff a phobl ifanc o Prevent a'r Prosiect Engage, Gofalwyr Maeth o Awdurdod Lleol Blaenau Gwent a'r 'Foster Care Cooperative'.

Ymunodd staff o Independent Children Services Ltd (ICS) a dau swyddog diogelwch plant o ward Glynebwy â'r daith hefyd. Roedd hyn yn dystiolaeth o ysbryd cymunedol cryf ac o weithio mewn partneriaeth.

"Dwi'n teimlo'n well nawr nad ydwi'n gadael fy lleoliad, diolch i chi am fy helpu..."

Cwblhawyd tair taith wahanol:

Taith 1) Cwm i Ganolfan Deulu Heol Beaufort. Cychwyn o Lofa Old Marine yn y Cwm.

Taith 2) Tredegar i Ganolfan Deulu Heol Beaufort. Man cychwyn tu allan i brif fynedfa Ty Bedwellte.

Taith 3) Brynmawr i Ganolfan Deulu Heol Beaufort. Man cychwyn tu allan i dir The Willow Tree, Parc Manwerthu Lakeside.



Daeth y Maer y Cynghorydd Derrick Bevan i daith y Cwm a'i dechrau ac fe wnaeth y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Barrie Sutton gychwyn y daith o Frynmawr.

Croesawodd y Maer y Cynghorydd Derrick Bevan, y Dirprwy Faer y Cynghorydd Barrie Sutton a'r Aelod Gweithredol dros Wasanaethau Cymdeithasol y Cynghorydd Haydn Trollope y cerddwyr yn ôl i Ganolfan Deulu Heol Beaufort.

Ar ôl y daith dathlwyd y Pythefnos Maethu gyda lluniaeth a ddarparwyd gan Pizza Wheels. Roedd yno gerddoriaeth, castell neidio, diddanwr i'r plant, sioe balwnau a pheintiwr wynebau.

Daeth y Lloches Dylluanod draw ynghyd â staff o Dy Bedwellte a Celf ar y Blaen a drefnodd y gweithgareddau Hawaiaidd i'r plant. Roedd Teuluoedd yn Gyntaf,

y Gwasanaeth Ymyrryd Teuluol a Prevent yno gyda stondinau i hyrwyddo eu gwasanaethau.

Hoffai Tîm Lleoli Blaenau Gwent ddiolch i bawb a fu yno a gyfrannodd i godi proffil maethu ym Mlaenau Gwent.



"Diolch i chi am siarad drosaf fi a'm helpu i ddeall beth sy'n digwydd..."

Gwobrau Plant sy'n Derbyng Gofal 2015

Ar 20 Tachwedd 2015 dathlwyd llwyddiant Adran Plant sy'n Derbyng Gofal Blaenau Gwent mewn digwyddiad sydd wedi datblygu yn un blynyddol.

Daeth nifer dda i'r seremoni, a gynhaliwyd yn Sefydliad Glynebwy, gydag amrywiaeth fawr o wobrau yn cael eu rhoi am lwyddiant academaidd a hefyd i blant a phobl ifanc oedd wedi dangos cynnydd mewn agweddau eraill o fywyd ysgol (er enghraifft datblygu eu sgiliau cymdeithasol, hyder a rheoli eu hymddygiad).

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol, roedd yn ddiwrnod emosiynol i bawb ac roedd y staff yn falch iawn bod cymaint o'n plant wedi cael eu hanrhydeddu yn y seremoni.

Rydym yn camu i 2016 gan wybod y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

yn cael ei gweithredu o Ebrill 2016, a bydd hyn yn golygu newid diwylliant i ni ein hunain, ein partneriaid a'r cyhoedd o ran y modd y mae gwasanaethau yn cael eu cyflawni. Mae Cyngor Gofal Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglenni hyfforddi i helpu i weithredu'r newid hwn.

O Ionawr 2016 mae'r pwyslais wedi bod ar ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr sy'n gwneud penderfyniadau am gymhwyster.

O Ebrill 2016 bydd hyfforddiant mwy cyffredinol ar gael a bydd y Tîm Datblygu Gweithlu yn rhoi gwybod i staff am yr hyn fydd ar gael a phryd.



“Mae fy eiriolwr wastad yn fy helpu, mae'n cael pobl i wrando ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud...”

Teuluoedd yn Gyntaf (Dwyrain)


Ganwyd K cyn pryd ac mae ganddo ddiagnosis o syndrom Russell-Silver sy'n anhwylder tyfu a nodweddir gan dyfiant araf cyn ac ar ôl geni.

Roedd y ddau riant yn cael anhawster yn rheoli K ac roedd ganddo anghenion dysgu hefyd. Atgyfeiriwyd y teulu at Teuluoedd yn Gyntaf i gael cefnogaeth gyda K oedd â nifer o anghenion iechyd cymhleth ac mae wedi ei gofrestru yn anabl. Ar y dechrau roedd y teulu yn gyndyn o ddangos ymlyniad, ond wrth i'r gefnogaeth gael ei rhoi roeddent hwythau'n dangos mwy o ymlyniad.

Derbyniodd y rhieni gefnogaeth rhianta a derbyniodd y fam hefyd gefnogaeth o ran iechyd meddwl. Mae'r Ymwelydd Iechyd yn monitro K yn ogystal â rhoi cefnogaeth i'r fam. Mae

K yn cael 5 diwrnod o ofal plant am ddim mewn lleoliad Dechrau'n Deg.

Atgyfeiriwyd y teulu at Therapi Galwedigaethol am gefnogaeth i gael bath, canllaw a ffens ar gyfer yr ardd gefn. Mae'r teulu yn mynd i'r holl apwyntiadau iechyd a wnaed i K ac maent yn ymwneud â'r holl weithwyr proffesiynol.



“Rwy'n hoffi eich bod yn fy nghefnogi trwy fy holl gyfarfodydd...rydych ar 'speed dial' os bydd arnaf eich angen”

Gweithiwr Cefnogi Teulu Anabledd

Mae C yn mynd i ysgol gynradd leol ac roedd arno angen cefnogaeth yn yr ysgol oherwydd problemau yn ymwneud â diffyg canolbwytio, colli diddordeb ac ymddygiad yn y dosbarth.

Dyweddodd y fam y byddai'n hoffi adroddiad Seicolegydd Addysg wedi ei ddiweddarau i sicrhau bod C yn cael y gefnogaeth gywir yn yr ysgol. Roedd pryder hefyd am ddatblygiad iaith a lleferydd C.

Teimlai'r fam bod angen atgyfeirio C at y Tîm Iechyd Meddwl Cynradd neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) i'w asesu am awtistiaeth posibl. Sefydlwyd Tîm o Gwmpas y Teulu (TAF) oedd yn cynnwys y teulu, yr Ysgol, Ymwelydd Iechyd, Seicolegydd Addysg a CAMHS. Atgyfeiriwyd at y Tîm Iechyd Meddwl Cynradd a hefyd grŵp cefnogi rhieni Teuluoedd yn Gyntaf.

Atgyfeiriwyd hefyd i gael therapi lleferydd ac iaith i C. Arweiniodd y gefnogaeth yma at weld C yn cael cefnogaeth cymhorthydd dysgu 1:1 mewn dosbarth llai.

Mae'r fam yn dal i gael cefnogaeth gan y Tîm Iechyd Meddwl Cynradd ac mae wedi cael strategaethau i reoli ymddygiad gartref sydd wedi arwain at newid positif yn neinameg y teulu.

Arweiniodd asesiad gyda CAMHS at ddiagnosis o Awtistiaeth. Mae'r teulu yn parhau i gael cefnogaeth ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddau.



“Rwy'n hoffi pan fyddwch yn fy helpu, roeddech yn dda iawn am esbonio pethau i mi...”

Cymhariaeth Data a Pherfformiad Gwasanaethau Plant


Dangosydd	Perfformiad a Gofnodwyd			2015/16 Perfformiad a Ragwelir	Targed 2015/16	Tuedd 1 flwydd-yn	Sylwadau
	2012/13	2013/14	2014/15				
SCC/011b - Y ganran o asesiadau cychwynnol yn y mis pan fydd tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld ar ei ben ei hun gan weithiwr cymdeithasol	44.1%	40.2%	38.8%	62.4%	40%	↑	Mae'r dangosydd yma wedi dangos cynnydd mawr o'r flwyddyn flaenorol.
SCC/002 - Y ganran o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi profi un neu fwy o newidiadau o ran ysgol, yn ystod cyfnod o dderbyn gofal, nad oedd oherwydd trefniadau trosglwyddo, yn y 12 mis hyd 31 Mawrth	12.3%	13.3%	15.4%	17.5%	14%	↓	O'r 120 o blant mae 21 yn cael eu symud, ond mae adegau pan ellir ystyried y symud yn bositif, gan gadarnhau cartref parhaol y plentyn.
SCC/041a - Y ganran o blant cymwys, perthnasol ac a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynlluniau llwybr yn ôl y gofyn	100%	100%	100%	100%	100%	↔	Mae'r dangosydd hwn yn parhau i fod ar 100%

SCC/004 - Y ganran o blant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn	12.5%	11.2%	15.4%	12.4%	14%	↑	Mae 24 o 193 o Blant sy'n Derbyn Gofal wedi cael tri neu fwy o newidiadau lleoliad yn ystod y flwyddyn.
SCC/011a - Y ganran o asesiadau cychwynnol yn y mis pan fydd tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol	74.1%	68.5%	61.2%	56.8%	60%	↓	Gwelwyd cynnydd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal, dim ond Gweithwyr Cymdeithasol cymwys all weld yr achosion hyn sy'n golygu bod Gweithwyr Cefnogi wedi bod yn cynnal asesiadau cychwynnol.
SCC/025 - Y ganran o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a ddigwyddodd yn ôl y rheoliadau	86.6%	88.6%	88.8%	80.0%	90%	↓	Cwblhawyd 749 o 936 ymweliad statudol plant sy'n derbyn gofal yn ôl yr amserlen.
SCC014 - Y ganran o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol oedd i fod i ddigwydd a gynhaliwyd cyn pen 15 diwrnod gwaith o'r drafodaeth strategaeth	99.0%	99.1%	100%	95.1%	100%	↓	Cynhaliwyd 135 o'r 142 o Gynadleddau Cychwynnol o fewn yr amserlen.
SCC/042 - Y ganran o asesiadau cychwynnol a wnaed cyn pen 7 diwrnod gwaith	92.9%	91.8%	94.8%	86.6%	95%	↓	Cynhaliwyd 776 o'r 829 o Asesiadau Cychwynnol o fewn yr amserlen. Mae mwy o adnoddau yn cael eu trefnu.
SCC/043 - Y ganran o asesiadau craidd gofynnol a gynhaliwyd cyn pen 35 diwrnod gwaith	93.9%	92.9%	94.2%	82.9%	95%	↑	Mae'r dangosydd yn parhau i wella ac yn uwch na'r targed.

SCC/021 - Y ganran o adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd yn yr amserlen statudol	98.0%	97.0%	97.9%	96.7%	100%	↓	Cwblhawyd 469 o 485 o adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn yr amserlen.
SCC/034 - Y ganran o adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn yr amserlen statudol	99.1%	97.0%	92.8%	100.0%	100%	↑	Mae'r dangosydd yma yn parhau i wella ac mae wedi cyflawni ei darged o 100%, gyda 252 o 252 Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn cael eu cynnal yn yr amserlen.
SCC/001a - Y ganran o leoliadau cyntaf plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal yn ei le	100%	100%	100%	90.3%	100%	↓	Mae 93 o 103 o blant wedi dechrau cael gofal ac mae'r cyfan wedi cael Cynllun Gofal Plant sy'n Derbyn Gofal.
(Dangosydd Perfformiad Lleol) - Y ganran o ofalwyr maeth cymeradwy sydd ag adolygiad blynyddol cyfredol	92.2%	93.2%	98.5%	92.1%	100%	↓	Mae gan 58 o 63 gofalwr maeth adolygiad blynyddol cyfredol
(Dangosydd Perfformiad Lleol) - Y ganran o sesiynau goruchwyllo sy'n digwydd ar amser	76.1%	77.2%	82.9%	84.6%	90%	↑	Digwyddodd 2089 o 2470 sesiwn goruchwyllo ar amser. Bydd canran o sesiynau goruchwyllo na fydd yn digwydd oherwydd salwch a gwyliau blynyddol.
(Dangosydd Perfformiad Lleol) - Y ganran o asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn y mis pan fydd tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld	96.8%	98.7%	99.3%	97.3%	100%	↓	Cwblhawyd 71 allan o 73 asesiad cychwynnol yn y mis pan welwyd y plentyn.

Y Dangosyddion Cytundeb Deiliant Blaenorol							
Y nifer o rieni sy'n defnyddio Dechrau'n Deg neu sy'n cael eu hatgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf sy'n cael eu cefnogi i symud ymlaen i gael eu cyflogi	22	32	185	228	200	↑	Perfformiad yn gwella o flwyddyn i flwyddyn ac yn uwch na'r targed.
Nifer o rieni sy'n cofrestru ar Raglen Ddatblygu Iaith Gynnar trwy'r Fwrdeisdref.	226	160	236	465	440	↑	Perfformiad yn gwella ac yn uwch na'r targed.
Nifer o rieni sy'n cofrestru ar Raglen Ddatblygu Iaith Gynnar trwy'r Fwrdeisdref.	142	156	317	434	340	↑	Perfformiad yn gwella o flwyddyn i flwyddyn ac yn uwch na'r targed.
Y ganran o blant cymwys sy'n defnyddio Gofal Plant Dechrau'n Deg	58%	85%	90%	84%	91%	↓	Bydd plant sy'n gwrthod cynnig o ofal plant yn cael ail gynnig rhag ofn y bydd newid yn eu hamgylchiadau. Y prif reswm dros wrthod cynnig yw bod gan rieni drefniadau gofal plant eraill.
Canran o rieni a gofrestrodd ar raglen rhianta sy'n cwblhau'r cwrs	51%	55%	79%	82%	80%	↑	Perfformiad yn gwella o flwyddyn i flwyddyn ac yn uwch na'r targed.
Canran o blant a gofrestrodd ar Raglen Datblygu Iaith yn Gynnar trwy'r Fwrdeisdref sy'n cwblhau'r cwrs	70%	44%	76%	89%	78%	↑	Perfformiad yn gwella ac yn uwch na'r targed.

Canran o blant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd neu'n mynd heibio'r cerrig milltir datblygiad yn 3 oed	51%	63%	68%	68%	68%	↔	Perfformiad yn gwella a'r targed wedi ei gyrraedd.
Canran o rieni a aseswyd ar ôl cwblhau rhaglen rianta sy'n dangos gwell effeithlonrwydd fel rhieni	62%	97%	98%	94%	99%	↓	Er na chyrraeddwyd y targed mae'r perfformiad yn dal yn dda.
Canran o achosion a atgyfeiriwyd at Teuluoedd yn Gyntaf trwy asesiad JAFF i gael cefnogaeth Tîm o Amgylch y Teulu sydd wedi dod i ben gyda deiliant llwyddiannus	50%	65%	57%	64%	60%	↑	Perfformiad yn gwella ac yn uwch na'r targed.



Blaenoriaethau Allweddol Gwasanaethau Plant 2016/17

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 wedi eu gosod yn unol â'r pwyntiau allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys parhau i ddatblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar, hyrwyddo annibyniaeth, diogelu plant ac oedolion bregus, a deilliannau cadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal mewn cyfnod o gyllidebau tynnach.

Yn yr Adran Gwasanaethau Plant y prif flaenoriaethau ar gyfer 2016/17 fydd:

Within Children's Services the main priorities for 2016/17 will be:

Blaenoriaeth - ***Yr holl dimau i gyfrannu at wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal.***

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae gan Blaenau Gwent a phartneriaid ddyletswydd fel rhieni corfforaethol dan Ddeddf Plant 2014 i wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal. Dengys ymchwil mai gan y cohort hwn o blant y mae'r deilliannau gwaethaf o ran iechyd, addysg a chyflogaeth. Rhaid i Blaenau Gwent fel rhieni corfforaethol herio'r status quo hwn.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Cynnal y cyfartaledd o waharddiadau o'r ysgol ar 3.5
- Cynnal presenoldeb ysgol yn uwch na 95%
- Plant sy'n derbyn gofal yn dynodi sut i wella deilliannau a darparu gwasanaeth.

Blaenoriaeth - ***Yr holl dimau i gyfrannu at leihad diogel yn y niferoedd o blant sy'n derbyn gofal.***

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae ein niferoedd o blant sy'n derbyn gofal wedi codi o 145 i 192 yn ystod y flwyddyn hon. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru i bob 1000 o blant. Mae pwysau hefyd gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol dros leihau'r niferoedd o blant sy'n derbyn gofal.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Gostwng ffigyrau plant sy'n derbyn gofal i dan 160.

Blaenoriaeth - ***Sicrhau bod Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, blynyddoedd cynnar a chwarae yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chefnogaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.***

Pam bod hyn yn bwysig?

Fel Awdurdod Lleol rhaid i ni symud pwyslais y gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i ddynodi anghenion yn gynnar ac ymwneud â theuluoedd i'w cefnogi wrth fodloni eu hanghenion. Yn ei dro dylai hyn leihau'r nifer o deuluoedd sydd angen gwasanaethau statudol, gan nad yw cynnydd parhaol yn y nifer o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r nifer o blant sy'n derbyn gofal yn gynaliadwy.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Bydd ailstrwythuro yn dwyn swyddi proffesiynol o fewn y Tîm Teuluoedd yn Gyntaf i gefnogi rheoli anghenion mwy cymhleth.
- Bydd y nifer o deuluoedd sy'n derbyn ymyrraethau Teuluoedd yn Gyntaf sydd heb fodloni'r meini prawf am gynllun gofal a chefnogaeth yn cynyddu
- Bydd y nifer o raglenni rhianta a gyflwynir yn cynyddu.

Blaenoriaeth - ***Pob tîm i sicrhau bod plant a phobl ifanc Blaenau Gwent yn cael eu diogelu.***

Pam bod hyn yn bwysig?

Amlygodd arolwg diweddar Estyn bod diogelu yn dda. Rhaid cynnal y sefyllfa yma. Mae gofynion diogelu newydd yn y Ddeddf ar gyfer oedolion a fydd yn gofyn i ni newid pwyslais y gwasanaethau.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Bydd y Tîm Diogelu Corfforaethol wedi ei ffurfio
- Bydd yr holl blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn cael eu hadolygiadau o fewn yr amserlen statudol.

Blaenoriaeth - ***Rhaid i'r gweithlu ddeall a chyflawni'r gofynion dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***

Pam bod hyn yn bwysig?

Daeth y Ddeddf hon i rym ar 6 Ebrill 2016 a dyma'r newid mwyaf yn y ddeddfwriaeth gofal plant ers cyflwyno Deddf Plant 1989.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

Bydd staff yn teimlo'n hyderus yn eu gwybodaeth am y Ddeddf a bydd tystiolaeth o hyn trwy arolwg staff/ archwiliad i'w gynnal yn hwyr yn 2016.



Cynnydd mewn cymhariaeth â blaenoriaethau

Gwasanaethau Oedolion

Gwasanaethau Oedolion	
Teitl Blaenoriaeth	Hunan Werthusiad
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Cyflawnwyd - Mae'r gwaith yn parhau i symud ymlaen i ddylunio'r offerynnau a strwythurau Asesu Integredig a Gwybodaeth / Cyngor a Chymorth. Treialwyd y dogfennau Asesu Integredig arfaethedig (i Went gyfan) yn y Tîm Gofal Cymunedol (Dwyrain) a'u profi ar systemau TG Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng Ionawr a Mawrth 2016. Bu'r holl Reolwyr Gwasanaeth, Rheolwyr Timau ac Uwch Ymarferwyr yn yr hyfforddiant. Mae'r gwaith yn parhau i ymestyn y dull ar sail deilliannau a chwblhawyd adroddiad gwerthuso a'i anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru ac mae'r Adran yn aros am ymateb. Mae llif gwaith yn ei le i symud ymlaen gyda datblygu trefniadau comisiynu ar sail deilliannau. Daliwyd ati i gynnal gweithdai gyda Darparwyr i ddatblygu gwasanaethau ar sail deilliannau.
Strategaeth Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn y 21fed Ganrif	Cyflawnwyd - Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gynnwys yng ngwaith craidd y Grŵp Byw'n Annibynnol gyda'r cynlluniau gweithredu wedi eu diweddarau fel rhan o'r cynllun gwaith. Gwelwyd cynnydd ar draws yr wyth blaenoriaeth allweddol yn y 'Strategaeth Byw'n Annibynnol'. Mae prosiect Llys Nant y Mynydd yn parhau ac mae'r cynnydd yn gwella yn araf. Mae cyd-weithwyr ym maes iechyd yn gweithio ar y cyd gyda Gofal Cymdeithasol i ddatblygu Model Tîm Adnoddau Cymunedol / Gofal Cartref gwell a phenodwyd Swyddog Prosiect i yrru'r gwaith hwn ymlaen gan gychwyn ym Mai 2016. Mae ymarferwyr yn parhau i gyfrannu at waith ar ddatblygu dulliau ar sail canlyniad a'r sgysiau "beth sydd o bwys" gyda defnyddwyr gwasanaeth. Gwnaed gwaith yn nhîm Gofal Cymunedol y Dwyrain i ddatblygu dulliau integredig o ddarparu gwasanaeth ar y cyd gyda chydweithwyr o blith y Nyrsys Ardal. Bydd rhagor o waith yn cael ei ddatblygu yn nhîm Gofal Cymunedol y Gorllewin.
Sicrhau bod pobl yn cael yr help y mae arnynt ei angen i fyw bywydau llawn	Cwblhawyd - Bydd y wybodaeth hon yn cael ei monitro fel rhan o'r 'Strategaeth Byw'n Annibynnol'. Casglwyd hyn yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u gwaith monitro ar Gytundeb Deiliant ond nid yw hyn yn ofynnol bellach.

Symud yr agenda cyd-weithio/ rhanbarthol ymlaen gyda phartneriaid, lechyd yn arbennig	Cyflawnwyd - Mae LEAP 2, y prosiect treialu lechyd Meddwl yng Ngogledd Caerffili wedi parhau trwy gydol Ionawr hyd Fawrth 2016 ac mae'n cael ei werthuso yn gyson. Mae elfennau eraill o'r system iechyd meddwl hefyd yn cael eu gwirio yn Nhorfaen ac mae'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno yn ôl i'r grŵp. Mae'r tîm ystyried systemau gan weithio gyda'r Tîm BOLD (Gwell Deilliannau i Anableddau Dysgu) ac yn parhau i archwilio'r model a sut y gellir ei ymestyn ar draws ardal Gwent. Cyflwynwyd adroddiad i Fwrdd y Bartneriaeth tua diwedd 2015 i roi'r diweddaraf am y cynnydd a chafwyd cytundeb i barhau'r peilot am 12 mis arall. Mae'r cyfraniad at waith rhanbarthol ar weithredu Asesu Integredig yn parhau. Cynhaliwyd gweithdai yn rhanbarthol a lleol gyda staff. Cyflawnwyd setiau dysgu trwy weithredu gyda Nyrsys Ardal a Gweithwyr Cymdeithasol.
Datblygu modelau gwahanol o ddarparu gwasanaeth	Cyflawnwyd yn Rhannol - Mae dynodi partner i symud ymlaen â'r Caffi Opsiynau Cymunedol ar stop gan nad oes penderfyniad eto ar ddyfodol y Ganolfan Adnoddau Busnes yn Nhredegar. Mae'r Prosiect 'Mynydd' yn dal i symud ymlaen yn araf ac mae barn y tenantiaid yn cael ei geisio a chyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng yr holl randdeiliaid. Cytunwyd ar y bwriad i wella'r Tîm Adnoddau Cymunedol a Gofal Cartref i integreiddio darparu gwasanaeth ail-alluogi gan y Grŵp Tasg a Gorffen a'i gymeradwyo gan Gydweithwyr yn y Byd Iechyd. Penodwyd Swyddog Prosiect i symud hyn ymlaen ond ni fydd yn y swydd hyd ddiwedd Mai 2016.
Ymateb i'r cynigion Gwella gan AGGCC	Cyflawnwyd - Mae'r gwaith Cymuned sy'n Deall Dementia yn parhau i fynd o nerth i nerth. Sefydlwyd grŵp gweithredu Cymuned sy'n Deall Dementia gyda Chylch Gorchwyl ac fe'i lansiwyd yn swyddogol ar 30 Mawrth 2016. Mae'r grŵp gweithredu yn cyfarfod yn chwarterol ac mae wedi cyfarfod dair gwaith ers yr achrediad. Sefydlwyd Bwrdd Dementia Rhanbarthol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Nyrsio. Y bwrdd rhanbarthol sy'n arwain ar weithredu strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymru Cenedl sy'n Deall Dementia' ac yn bodloni amcanion 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru' a gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn. Rydym wedi defnyddio sesiynau ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia fel y prif fodd o godi ymwybyddiaeth ar draws Blaenau Gwent.

Gwasanaethau Oedolion

Categori: Ymateb i Angen - Cynnydd a Sialensiau

Cynnydd a wnaed yn 2015/16

T Mae'r gwaith ar sicrhau ansawdd a chomisiynu yn awr yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn arbennig y model deilliannau a dreialwyd ar gyfer yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith yn datblygu a'r momentwm yn cynyddu wrth i ni ddechrau gweithredu'r Ddeddf dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf.

Adolygwyd y 'Strategaeth Byw'n Annibynnol yn y 21fed Ganrif' yn 2012 ac fe'i diwygiwyd i fodloni anghenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ethos y Strategaeth yw cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain am cyn hired ag sy'n bosibl, tra mae'r Ddeddf yn ymwneud ag ymyrryd yn gynnar ac atal

trwy ganfod cefnogaeth yn y cymunedau.

Mae wyth maes blaenoriaeth y Strategaeth yn parhau yn ffocws i welliant i wasanaethau h.y. gofal tymor hir trwy weithio gyda darparwyr i sicrhau ein bod yn bodloni anghenion preswyl a nyrsio'r boblogaeth; sicrhau ein bod yn darparu gofal cartref addas, dibynadwy ac o ansawdd; datblygu ein dull ailalluogi ymhellach; sicrhau ein bod yn cefnogi gofalwyr yn eu rôl; gweithio'n glos gyda phartneriaid tai i ddatblygu ystod o lety addas; hybu ac ehangu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol a thaliadau uniongyrchol; a hybu datblygu sgiliau yn Opsiynau Cymunedol i wella annibyniaeth a hunanhyder.

Eleni gwelwyd y ddau Dîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol sy'n ymdrin â'r ardaloedd rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn Nwyrain a Gorllewin Blaenau Gwent yn ymwreiddio; mae un yn gweithio o Llys Einion,

Abertyleri a'r llall yn y Ganolfan Adnoddau Busnes, Tredegar. Bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal ar gyd-leoli gweithwyr cymdeithasol, nyrsys uniongyrchol a Thîm Adnoddau Cymunedol Prosiect Llesgedd Gwent, ac yna rhoddir ystyriaeth a ellid dilyn dulliau gwahanol o reoli llinell ar y timau hyn. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod gwell cyfathrebu wedi digwydd rhwng gweithwyr proffesiynol ac o ganlyniad bod gwell deilliannau i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Yn dilyn ymweliad â phrosiect 'Rhaglan' yn Sir Fynwy a thrafodaethau gyda staff Gofal Cartref, mae Grŵp Tasg a Gorffen yr Aelodau wedi cytuno i weithredu prosiect treialu yng nghynllun Gofal Ychwanegol Llys Nant y Mynydd yn y Blaenau. Ymdrech yw hyn i symud oddi wrth y ddarpariaeth ar sail 'amser a thasg' i fodel sy'n seiliedig ar berthynas sy'n cefnogi anghenion unigol yn ddyddiol, gan ddibynnu ar yr hyn y maent am ei wneud ar y diwrnod hwnnw. Mae prosiect treialu y 'Mynydd' wedi dechrau ac yn dangos cynnydd araf, ond mae gofyn cael newid diwylliant sylweddol nid yn unig gan y staff

ond gan yr unigolion sy'n derbyn y gofal a'u teuluoedd. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant i'w cefnogi yn y newid hwn a gyda nifer o gamau bychan dylai'r cynllun treialu ddechrau datblygu momentwm a symud ymlaen.

Mae prosiect yn cael ei symud ymlaen i gyfuno'r Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol â'r Gwasanaeth Ailalluogi presennol yn y Tîm Adnoddau Cymunedol ar Lesgedd. Mae grŵp Tasg a Gorffen yr Aelodau wedi cytuno ar y ddadl fusnes ac wedi gofyn am i gynllun busnes gael ei ddatblygu i symud hyn ymlaen ymhellach. Er mwyn symud prosiectau ymlaen yn gyflymach, dynodwyd swydd Rheolwr Prosiect ac mae cais llwyddiannus i'r Gronfa Cyllideb Wrth Gefn wedi golygu bod swyddog wedi ei benodi i ddechrau yn y swydd ar ddiwedd Mai 2016.

Yn ystod 2015/16 mae'r Adran yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'n darparwyr Cartrefi Gofal i gynyddu'r nifer o welyau camu lan/camu i lawr (Gofal Canolraddol). Cyflawnwyd

hyn trwy fuddsoddi Cyllid Gofal Canolraddol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Prif bwyslais yr unedau ychwanegol oedd lleihau'r galw yn ysbytai Gwent trwy leihau'r nifer o gleifion sy'n cael eu derbyn yn ddiangen a hwyluso eu rhyddhau yn brydlon. Mae'r ffigyrau a gofnodir ar gyfer Trosglwyddiadau Gofal a Oedwyd (DTOC) yn parhau yn isel ar gyfradd o 0.89 i bob 1,000 o'r boblogaeth dros 75 oed yng nghyswllt cleifion Blaenau Gwent.

Mae technoleg gynorthwyol yn parhau i gael ei hybu ac mae'r swydd technoleg gynorthwyol yn y Tîm Adnoddau Cymunedol wedi ymwreiddio fel ei bod yn cael ei hystyried yn fwy rhagweithiol fel y man asesu cyntaf. Gwelwyd twf bychan mewn taliadau uniongyrchol eleni yn dilyn adolygiad yn 2014/15 er bod hyn yn parhau yn faes cyfreithiol cymhleth i ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'r adran i ymdrin ag ef.

Mae sgiliau yn parhau i gael eu datblygu mewn nifer o brosiectau blaengar a ddarperir gan Opsiynau Cymunedol ac rydym yn ceisio symud rhai o'r rhain ymlaen

yn gwmnïau cymdeithasol gyda'r gobaiith y gall rhai o'r myfyrwyr yn y prosiectau hyn gael eu cyflogi gan y cwmni cymdeithasol neu ddod o hyd i waith yn eu cymunedau eu hunain.

Mae'r pedair swydd Cysylltydd Cymunedol a sefydlwyd ac a ariannwyd trwy'r Gronfa Gofal Canolraddol yn parhau i gefnogi unigolion sy'n unig ac wedi eu hynysu, gan leihau'r potensial iddynt waethygu nes bydd arnynt angen cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu lechyd. Bu'r Cysylltwyr yn allweddol o ran ehangu gweithgareddau yn y cymunedau trwy Flaenau Gwent i gyd ac mae eu gwaith un i un, trwy weithgareddau grŵp a sesiynau cymunedol wedi bod yn boblogaidd yn ein cymunedau.

Mae gofalwyr di-dâl yn parhau i gael cefnogaeth trwy'r rhaglen hyfforddi gofalwyr. Mae'r adran yn gweithio'n barhaus i ymwreiddio rôl Swyddog Cefnogi Gofalwyr trwy drefnu digwyddiadau i Ofalwyr gan gynnwys cynhadledd lwyddiannus i ofalwyr a gynhaliwyd yn hydref 2015.

Mae'r Adran dan bwysau ariannol sylweddol ac mae wedi gweithio'n galed i greu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o ddarparu gwasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys herio achosion Gofal lechyd parhaus yn gadarn i sicrhau bod unigolion yn cael eu cyllido yn briodol, cyfranogi ym model Llesgedd Gwent a'r gwasanaeth Ailalluogi trwy gynnig ein cyfleusterau a'n gwasanaethau i awdurdodau lechyd a lleol eraill e.e. Bert Denning, Augusta House a Byngalos Byw â Chefnogaeth; mae Gwasanaethau Oedolion wedi llwyddo i ddarparu'r arbediadau o £480,000 ar gyfer 2015/16 ac mae wedi tanwario o £1.053 miliwn ar 31 Mawrth 2016.

Sialensiau yn 2015/16

Yn ystod cyfnod o gyllidebau llai ac arbed mwy, mae'r timau wedi parhau i gyflawni gwasanaethau ar y rheng flaen heb effeithio ar y cyhoedd, ond gyda'r gofynion ar y gwasanaeth a'r newidiadau mewn arferion e.e. Deddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; gall hyn gael effaith yn y dyfodol. Ar adegau mae'r gallu yn yr adran wedi bod yn broblem oherwydd

salwch staff a'r staff yn prinhaus neu yn gweithio llai o oriau i gael cydbwysedd gwell rhwng eu gwaith a'u cartrefi.

Roedd yr adran wedi paratoi am doriad cyllideb i'r Tîm Cefnogi Pobl o hyd at 10% ar gyfer 2016/17; ond ni wnaeth y toriadau hyn gael eu gwireddu, er bod nifer o feysydd gwasanaeth wedi cael eu hadolygu a nifer o wasanaethau wedi cael eu hailgomisiynu i gyflawni darpariaeth yn gysylltiedig â thai sydd yn rhoi mwy o bwyslais ar y cwsmer ac yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Nid yw'r adeiladau yn y Ganolfan Adnoddau Busnes i Dîm Gofal Cymunedol y Gorllewin a'r Tîm Adnoddau Cymunedol o'r un safon â'r hyn sydd gan y Timau Gwasanaethau Oedolion eraill. Mae ffabrig yr adeilad a'r cyflwr allanol yn anodd i staff.



Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod ei fod yn galluogi i Ofal Cymunedol, y Tîm Adnoddau Cymunedol a'r Nyrsys Ardal fod ar yr un safle, sy'n cefnogi ein nod strategol o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Cynhelir adolygiad o ddyfodol yr adeilad yn ystod dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae'r gwaith comisiynu/llunio contract ar gyfer teleofal/Piper Lifeline yn cael eu rheoli yn gorfforaethol tra mae'r marchnata a'r gosod yn cael eu rheoli gan Wasanaethau Oedolion. Yr her yw ail lunio'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd i un adran.

Eleni gwelwyd peth cynnydd yn rhai o'r prosiectau a ddynodwyd y mae angen eu datblygu. Cytunodd Grŵp Tasg a Gorffen i symud cynllun busnes ymlaen ar gyfer y prosiect Caffi Opsiynau Cymunedol yn y Ganolfan Adnoddau Busnes yn Nhredeg.

Cytunwyd i gomisiynu sefydliad partner i weithio gyda'r adran i ddatblygu cynllun busnes o'r fath ar gyfer y caffi. Fodd bynnag,

mae'r cynnydd ar hyn wedi cael ei atal gan na phenderfynwyd ar ddyfodol y Ganolfan Adnoddau Busnes.

I'r holl dimau mae'r ailfodelu ar ddarparu gwasanaeth i baratoi ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn faes i'w ddatblygu gan AGGCC, mae'r cynllun gweithredu a'r mesuriadau perfformiad yn cael eu diweddarau yn chwarterol ac yn sicrhau bod yr adran yn cynllunio'n strategol i ddatblygu a darparu cefnogaeth i ddiogelu oedolion agored i niwed ar draws Blaenau Gwent.



Categori: Diogelu - Cynnydd a Sialensiau

Cynnydd a wnaed yn 2015/16

Mae diogelu oedolion sy'n agored i niwed yn parhau yn flaenoriaeth allweddol, nid yn unig ar gyfer Gwasanaethau Oedolion ond hefyd ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae rheoli'r gwasanaeth yn golygu bod gan yr adran gyfrifoldeb am gydlynu a rheoli atgyfeiriadau a phryderon diogelu oedolion yn ddyddiol trwy ymchwilio i unrhyw risgiau a ddynodwyd i sicrhau deilliannau priodol, nid yn unig i'r oedolion agored i niwed, ond hefyd i'r tramgwyddwr a'r darparwr gwasanaeth/comisiynwyr.

Mae'r adran yn rhan o Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan sydd â'r cyfrifoldeb o ddarparu arweiniad strategol ar ddiogelu oedolion agored i niwed ar draws Gwent. Yn lleol mae'r adran wedi cynyddu gallu'r Tîm Diogelu Oedolion trwy ychwanegu swydd gwaith cymdeithasol. Bu'r cynnydd fel rhan o'r paratoi ar gyfer gweithredu dyletswyddau newydd

yr ydym yn eu hwynebu gyda gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyflwynwyd cynllun gweithredu ar gyfer pob un o'r meysydd yn y 'Strategaeth Byw'n Annibynnol yn y 21fed Ganrif', gyda mesuriadau perfformiad yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Strategaeth. Fel yr argymhellwyd gan AGGCC, mae'r cynllun gweithredu a'r mesuriadau perfformiad yn cael eu diweddarau yn chwarterol ac yn sicrhau bod yr adran yn cynllunio'n strategol i ddatblygu a darparu cefnogaeth i ddiogelu oedolion agored i niwed ar draws Blaenau Gwent.



Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gweld cau gwelyau preswyl a nyrsio (Cwm Seren), tra mae gwasanaeth preswyl newydd wedi agor (Chiltern Place) yn darparu llety i unigolion gydag anghenion dementia, sy'n profi bod yr adran yn parhau i fonitro a rheoli'r farchnad cartrefi gofal yn ofalus.

Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar werthuso'r dystiolaeth o ran y dull hwn ac a ellir ei gyflwyno ar draws holl ardaloedd Gwent yn y sefyllfa ariannol bresennol.

Eleni rydym wedi cyflwyno'r model Gwell Deilliannau i Anableddau Dysgu (BOLD) gan ddefnyddio'r dull meddwl am systemau o fewn anableddau dysgu.

Mae'r prosiect treialu yn cael ei gynnal ym Mlaenau Gwent a bydd y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu gydag awdurdodau lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd. Bydd y prosiect hefyd yn cael ei werthuso a chesglir tystiolaeth i ystyried manteision y dull hwn ac a ellir ei gyflwyno mewn ardaloedd eraill yng Ngwent.



Sialensiau yn 2015/16

- Mae gallu'r Tîm Diogelu Oedolion Agored i Niwed wedi cynyddu a bydd yn rhaid monitro hynny yn ofalus dros y 12 mis nesaf oherwydd cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i chyfrifoldebau a phwerau newydd a all greu galw ychwanegol.
- Newidiodd Dyfarniad Goruchaf Lys yr hyn sy'n cyfateb i Amddifadu o Ryddid ym Mawrth 2014. Arweiniodd hyn at gynnydd mawr yn y Camau Diogelu Amddifadu o Ryddid. Ni lwyddodd Tîm Camau Diogelu Amddifadu o Ryddid Gwent i fodloni'r gofynion presennol er bod adnoddau staff ychwanegol wedi cael eu dyrannu gan bob awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, mae ôl-groniad o geisiadau wedi casglu y mae'r Tîm yn gweithio i geisio eu lleihau.

- Symud at Dîm Plant, Addysg a Diogelu Oedolion integredig ac i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol Gwent Gyfan.



Categori: Cwynion a Chanmoliaeth

Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i'w defnyddwyr; ond er gwaethaf y bwriadau gorau, mae'n cael ei gydnabod bod pethau yn gallu mynd o chwith weithiau ac mae'r weithdrefn gwynion yn rhoi cyfle i bobl leisio eu pryderon os a phan fyddant yn anfodlon ar y gwasanaeth.

Yn yr Adran Gwasanaethau Oedolion dim ond 3 cwyn a dderbyniwyd, derbyniwyd y cyfan ar gam 1 a datryswyd y cyfan ar y cam hwn. O'r rhain, datryswyd 2 yn yr amserlen a datryswyd 1 tu hwnt i'r amserlen.

Natur y Cwynion

Roedd natur y cwynion a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Diffyg help a chefnogaeth gan wasanaeth;
- Diffyg cyfathrebu gydag aelodau o'r teulu;
- Symud aelod o'r teulu i leoliad gwahanol heb gynnig eiriolaeth; aLack of clarity in informing the

- Diffyg eglurder wrth roi gwybod i deulu am gynnydd yn y cyfraniadau ariannol oherwydd newid yn y lleoliad.

Gwersi a Ddysgwyd / Camau a Gymerwyd

- Casglu gwell gwybodaeth ar y pen blaen a sicrhau bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn a'u cofnodi.
- Cyfathrebu gydag aelodau o'r teulu mewn modd cliriach a mwy amserol.

Gwella Gwasanaethau

Mae Uwch Reolwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd cwynion o ddifrif ac maent yn sicrhau bod argymhellion a ddynodir mewn ymchwiliadau yn cael eu gweithredu er mwyn rhoi gwybodaeth i/hyfforddi staff a pharhau hefyd i wella gwasanaethau.

Nifer y Cwynion a dderbyniwyd – 3 blynedd ddiwethaf

Cwynion Gwasanaethau Oedolion		
2013/14	2014/15	2015/16
14	10	3

Natur y cwynion a dderbyniwyd – 3 blynedd ddiwethaf

Mae Gwasanaethau Oedolion yn croesawu adborth positif a chanmoliaeth ac yn defnyddio'r wybodaeth i wella ein gwasanaethau.

Canmoliaeth Gwasanaethau Oedolion		
2013/14	2014/15	2015/16
21	15	18



Canmoliaeth Gwasanaethau Oedolion

Roedd natur y ganmoliaeth a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Diolch am eich holl ofal a chefnogaeth;
- Cyhoeddiad Teuluol yn y papur yn diolch i'r staff am eu cefnogaeth;
- Diolch i'r tîm am eu cefnogaeth;
- Diolch i bawb am eu meddylgarwch a'u cefnogaeth;
- Anfonwyd lluniau at aelod o staff i ddiolch iddi am ei holl gefnogaeth; a
- Cyfraniadau wedi eu rhoi at Gronfa Cwm Mytton a diolch i'r holl staff.

Astudiaethau Achos

Technoleg Gynorthwyol mewn Tai Gwarchod

Mae J yn 70 oed ac yn byw ar ei ben ei hun mewn cynllun tai gwarchod. Mae ei iechyd yn wael ac mae'n cael ei gynnal gan ofal cartref bob dydd. Yn aml gall fynd yn ddrislyd a chrwydro allan o'i gartref.

Trwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol a system 'Just Checking' gwelodd cydlynedd gofal J ei fod yn aml yn y gwely am gyfnodau maith yn y dydd, ei fod yn gynyddol ynysig a'i fod yn effro yn aml yn ystod y nos. Parhaodd iechyd J i ddirywio a theimlwyd i gychwyn na allai aros yn ei gartref ac efallai y dylai symud i ofal preswyl oherwydd ei risgiau yn y cartref yn ystod y nos.

Fodd bynnag, yn dilyn cael ei atgyfeirio i'w asesu ymhellach

gan Weithiwr Cefnogi Technoleg Gynorthwyol, gosodwyd synwryddion ychwanegol (cymorth gofal heb ei fonitro) fel bod staff gofal yn cael rhybudd yn ystod y nos os byddai ar J angen help. Bu'r deilliant yn gadarnhaol gan atal ei symud i ofal preswyl neu nyrso.



"Dwi'n teimlo bod gen i gefnogaeth i barhau yn fy rôl ofalu..."

Cysylltwyr Cymunedol

Roedd O yn weddw ac yn mynegi ei fod yn unig ac yn isel. Roedd wedi bod mewn rhai gweithgareddau lleol ond teimlai nad oedd ganddo gyswllt ag unrhyw un.

Roedd gan O lawer o diddordebau a hobiau gan gynnwys ffotograffiaeth ac roedd hefyd am wneud ffrindiau gyda phobl oedd â diddordebau tebyg iddo.

Gyda chymorth y Cysylltwyr Cymunedol rhoddwyd rhestr i O o grwpiau yn yr ardal ac fe'i hatyfeiriwyd at y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol i ddod yn gyfeillachwr.

Fe'i cyflwynwyd hefyd i grŵp dawns lleol a wnaeth ei alluogi i ailgysylltu â hen ffrindiau ac yn y pen draw daeth yn gyfeillachwr i

atal pobl eraill rhag mynd yn unig – yn union fel y bu ef. Bu hyn yn help i leihau unigrwydd O.

Trwy'r grŵp cyfarfu ag R. Roedd R yn gofalu am aelod o'r teulu ond yn mwynhau ffotograffiaeth hefyd. Oherwydd ei rôl yn gofalu nid oedd pob grŵp yn hygyrch iddo ond trwy ei gyswllt ag O roedd y ddau yn gallu cefnogi ei gilydd a rhannu eu diddordeb. Nododd R, 'Rwyf nawr yn gallu rhannu fy niddordeb mewn ffotograffiaeth gyda chyfaill pan fydd yr amser yn iawn i ni'n dau'.



"...Rwy'n gallu gwneud pethau sy'n bwysig i mi"

Tîm Adnoddau Cymunedol yn Hwyluso Rhyddhau o'r Ysbyty yn Ddiogel

Roedd J yn byw ar ei phen ei hun mewn byngalo ac roedd yn annibynnol o ran bywyd bob dydd cyn iddi syrthio a gorfod mynd i'r ysbyty. Cafodd gyfnod maith o ailsefydlu, ond roedd ei symudedd yn parhau i ddirywio. Wrth i anghenion J gynyddu, roedd ei theulu a'r gweithwyr meddygol yn bryderus sut y byddai'n ymdopi wrth fynd adref.

Yr hyn oedd o bwys i J oedd byw'n annibynnol yn y gymuned, er bod gweithwyr iechyd yn credu bod arni angen Gofal Preswyl tymor hir. Ar y dechrau nid oedd yn fodlon derbyn ond y gefnogaeth leiaf i gael cawod yn ei chartref.

Ychydig wythnosau ar ôl iddi gael mynd adref o'r ysbyty fe syrthiodd eto ac aeth yn ôl i'r ysbyty, eto teimlid nad oedd yn ddiogel iddi ddychwelyd adref ar ei phen

“Rwyf wedi cael rhan weithredol yn y penderfyniadau am fy ngofal...”

ei hun. Fodd bynnag, cynigiwyd cefnogaeth gan y Tîm Adnoddau Cymunedol i J a'r cyfle i symud o'r ysbyty i gychwyn i wely gofal canolraddol yng Nghartref Gofal Red Rose, ac yna i fflat gofal canolraddol (CARIAD) mewn cyfleuster Gofal Ychwanegol.

Ar ôl tua 6 mis o gefnogaeth roedd J yn teimlo'n hyderus i fyw'n annibynnol mewn cynllun tai gwarchod. Llwyddodd, gyda chefnogaeth asiantaeth gofal cartref, i reoli ei gofal personol a gyda'u cefnogaeth mae wedi cael ei hannog i ymuno â gweithgareddau cymdeithasol a grwpiau yn y cynllun. Mae J yn byw yn y gymuned, fel yr oedd wedi gofyn ac mae hyn wedi hybu ei hannibyniaeth a lleihau ei phryder. Mae'n cymdeithasu mwy ac yn teimlo'n hapus.



Tîm Adnoddau Cymunedol

Roedd S yn cael gofal gan ei phartner ac aeth yn bryderus am ei gallu i ymdopi gartref ar ei phen ei hun. Roedd gan S hanes o brofi trais domestig ac roedd wedi cael ymateb niwrolegol i straen oedd yn effeithio arni; yn gorfforol, yn emosiynol ac yn wybyddol.

Cynhaliwyd asesiad gofalwr a dyrannwyd Gweithiwr Cymdeithasol. Yn dilyn asesiad gan gynnwys sgwrs am 'beth oedd o bwys iddi hi', aseswyd y byddai S yn gallu ymdopi gartref gyda help offer i'w symud i'r bath.

Roedd am barhau i fedru cymysgu â'r gymuned yn annibynnol a thrwy gyfraniad y Cysylltwr Cymunedol, dechreuodd wirfoddoli mewn Grŵp Celf a Chrefft Lleol.

Yn dilyn y gefnogaeth a gafodd, dywed S ei bod yn fwy hyderus ac annibynnol yn ei holl fywyd dyddiol.

Mae wedi symud i eiddo mwy addas ac mae'n gallu byw bywyd llawn. Ei nod tymor hir yw cael gwaith cyflogedig.



“I have been involved in all decisions about how the care and support was provided for the person I care for...”


Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol

Mae A yn fenyw 19 oed sy'n byw gyda'i rhieni yn y cartref teuluol. Bydd A yn gadael yr ysgol ym mis Gorffennaf – mae ganddi anabledd dysgu cymedrol i ddifrifol, gallu cyfathrebu cyfyngedig, ASD a phryderon cysylltiedig, ymddygiad cymhellol a heriol.

Bu Gwasanaethau Oedolion yn gweithio gydag A ers ei phen-blwydd yn 16 oed ac yn ei pharatoi i symud i wasanaethau oedolion. Roedd mam A yn arbennig o bryderus am y broses drosglwyddo a'r gwasanaethau y gallai A eu cael yn oedolyn a chymhlethwyd ei pherthynas gychwynnol gyda Gwasanaethau Oedolion gan ei hargraff bod arni angen gofyn am wasanaethau ar sail yr hyn yr oedd eraill yn ei gael.

“Diolch i chi am siarad drosaf fi a'm helpu i ddeall beth sy'n digwydd...”

Trwy ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda'r fam a dynodi “Beth sydd o Bwys” i A a'i mam fel ei gofalydd, datblygwyd pecyn gofal i'r diben. Gwnaed hyn trwy sgysiau gydag A, ei mam, yr ysgol, sylwadau ac asesiadau arbenigol.



Yr hyn sydd “O Bwys” i A yw teimlo yn ddiogel, byw gyda'i mam, bod gyda phobl y mae'n hyderus gyda nhw, gweld ffrindiau, bod yn brysur gyda thasgau ystyrllon fel coginio a chael cefnogaeth staff arbenigol. Os bydd unrhyw un o'r elfennau hyn ar goll mae ymddygiad A yn mynd yn heriol.

Aed â'r fam i weld y gwasanaeth yr oedd hi wedi gofyn amdano i gychwyn a dysgodd na fyddai'n addas i A. Yn hytrach, trefnodd becyn gofal 1 diwrnod yn Bert Denning (hydrotherapi), 2 ddiwrnod mewn gwasanaeth arbenigol (SENSE) a thaliad gofal uniongyrchol i A gael treulio amser gyda'i ffrindiau.

Bu hwn yn achos cymhleth oedd yn cynnwys nifer o weithwyr proffesiynol a gwasanaethau ond mae'r cyfathrebu rhagorol, y rhannu gwybodaeth a'r

“Rwy'n teimlo'n ddiogel... Rwyf yn hapus gyda'r gefnogaeth gan fy nheulu, ffrindiau a chymdogion”

cydweithio rhwng yr holl weithwyr proffesiynol a'r teulu wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol. Mae Mam ac A yn awr yn hapus iawn â'r gwasanaethau a drefnwyd.



“Rwyf wedi cael cyngor, help a chefnogaeth a fydd yn fy mharatoi at fod yn oedolyn...”

Cymhariaeth Data a Pherfformiad Gwasanaethau Oedolion

Dangosydd	Perfformiad a Gofnodwyd			2015/16 Perfformiad a Ragwelir	2015/16 Targed	Tuedd 1 flwyddyn	Sylwadau
	2012/13	2013/14	2014/15				
SCA/001 - Cyfradd oedi cyn trosglwyddo am resymau gofal cymdeithasol i bob 1,000 o'r boblogaeth dros 75 oed	4.70	6.23	3.57	0.89	5%	↑	Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb i 5 o gleifion yn oedi cyn trosglwyddo i'r Awdurdod Lleol.
SCA/019 - Canran o atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a gwblhawyd pan reolwyd y risg	90%	98%	92.6%	91.1%	90%	↔	Er bod y duedd wedi gostwng ychydig, aed dros y targed.
SCA/002b - Cyfradd o bobl hŷn mewn gofal preswyl a chartref nysio i bob 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn	23.33	22.12	19.33	18.60	20.5	↑	Aed tu hwnt i'r targed hwn ac mae wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn.
SCA/002a - Cyfradd o bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned i bob 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn	133.34	128.41	120.89	108.40	115	↑	Mae'r dangosydd hwn yn dangos gwelliant.
SCA/007 - % o gleientiaid y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi eu hadolygu a adolygwyd	77.5%	77.8%	79.9%	68.3%	80%	↓	Bu Gwasanaethau Oedolion yn rhan o gynllun treialu deilliannau gyda phwyslais ar ddeilliannau unigol yn hytrach na chynnal adolygiadau wedi eu trefnu ymlaen llaw.
SCA/018a - Canran o ofalwyr oedolion y cynigiwyd asesiad neu adolygiad iddynt o'u hanghenion hwy eu hunain	100%	100%	96%	97.8%	100%	↑	Gosodwyd y targed ar 100% a chynigwyd adolygiad i nifer fawr.

SCA/018b - Canran o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion hwy eu hunain	27.0%	33.2%	32.7%	22.3%	32%	↓	Nid yw pob gofalwr yn derbyn y cynnig, felly mae hyn
SCA/020 - % o gleientiaid sy'n oedolion sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	87.78%	90.84%	91.50%	91.75%	92%	↑	Mae'r ffigwr hwn yn gwella yn barhaus.
Dangosydd Perfformiad Lleol) - Y nifer o oedolion (18+ oed) sy'n derbyn gwasanaeth yn y gymuned sy'n derbyn taliad uniongyrchol	113	140	126	131	130	↑	Dangosodd y ffigwr hwn welliant.
(Local PI) - Y nifer o oedolion sy'n gleientiaid sydd wedi eu hasesu sy'n cael technoleg gynorthwyol electronig fel rhan o becyn o ofal	243	257	274	279	280	↑	Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn wedi dangos cynnydd yn y nifer sy'n derbyn technoleg gynorthwyol.
(Dangosydd Perfformiad Lleol) - Y ganran o oedolion sy'n gleientiaid sy'n derbyn datganiad ysgrifenedig o'u hanghenion a sut y byddant yn cael eu cyflawni.	-	82%	80%	77%	90%	↓	Roedd y targed a'r dangosydd hwn yn cydnabod na fydd yr holl unigolion yn derbyn eu cynllun gofal e.e. dioddefwyr dementia, rhai pobl sydd ag anableddau dysgu difrifol. Gwelodd y dangosydd ddirywiad o flwyddyn i flwyddyn a all gyfateb â'r cynnydd yn yr unigolion sydd â dementia yr ydym yn eu gweld yn dod trwy'r system yn awr.
(Dangosydd Perfformiad Lleol) - % o sesiynau goruchwyllo a gynhaliwyd ar amser	70.6%	61.1%	72.3%	77.2%	85%	↑	Mae'r dangosydd hwn yn dangos gwelliant ers 2014/15.

Blaenoriaethau Allweddol Gwasanaethau Oedolion 2016/17

Mae blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016/17 wedi eu datblygu yn unol â'r pwyntiau allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys parhau i ddatblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar, hyrwyddo annibyniaeth a diogelu oedolion agored i niwed mewn cyfnod o gyllidebau tynnach.

Yn y Gwasanaethau Oedolion y prif flaenoriaethau fydd:

Blaenoriaeth - **Rheoli Cyllideb ac Arbedion**

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae Gwasanaethau Oedolion yn ymdrechu i chwarae ei ran i arbed arian i'r Cyngor o ganlyniad i gamau arbed arian Llywodraeth Ganolog. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i danwario, ond bydd rhagor o ostyngiadau yn y gyllideb sylfaenol a mwy o alw oherwydd pwysau demograffig

yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd i gydbwysu'r gyllideb dros y blynyddoedd nesaf. Yn ychwanegol, bydd oblygiadau o ran ymwreiddio'r Ddeddf newydd a all arwain at gynyddu neu leihau'r gyllideb, ond dim ond yn ystod ei gweithredu y gellir profi hyn. Mae'n bwysig fel Adran ein bod o leiaf yn cyflawni cyllideb gytbwys yn 2016/17.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Bydd cyllideb gytbwys ar gyfer 2016/17.
- Bodlonrwydd gan y bobl yr ydym yn darparu gwasanaeth iddynt.
- Parhau i gyflawni ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Blaenoriaeth - **Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Pam bod hyn yn bwysig?

Daeth y Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016 gyda chyfrifoldebau a phwerau newydd i'r Cyngor gyflawni arnynt. Bydd yn cymryd amser i'r staff weithredu'r holl newidiadau yma o ystyried yr

oedi cyn derbyn rheoliadau a chodau ymarfer. Bydd angen i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno i staff a bydd angen i'r cyhoedd gael eu haddysgu o gwmpas y newidiadau yn y Ddeddf.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Defnyddwyr y gwasanaeth a theuluoedd yn gweld symud i'r Ddeddf newydd yn ddiwiniad.
- Perfformiad yn dal i gyrraedd y lefelau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd.
- Peidio gweld cynnydd mewn cwynion.

Blaenoriaeth - **Dal i Weithredu Strategaeth Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn yr 21fed Ganrif**

Pam bod hyn yn bwysig?

Strategaeth 15 mlynedd yw'r 'Strategaeth Byw'n Annibynnol' sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf newydd; mae'r wyth blaenoriaeth yr un mor allweddol bwysig i'w symud ymlaen heddiw ag yr oeddant pan lansiwyd y strategaeth gyntaf yn 2006. Mae'n ymwneud â galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am cyn hired ag sy'n bosibl a fydd yn parhau i leihau'r baich ar gyllideb Gwasanaethau

Cymdeithasol oherwydd lleoliadau drud mewn cartrefi preswyl neu nyrso.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Gwasanaethau blaengar a chost effeithiol i gynorthwyo pobl i aros gartref.
- Bodlonrwydd gan y bobl yr ydym yn darparu gwasanaeth iddynt.
- Parhau i gyflawni ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Blaenoriaeth - **Symud ymlaen i Integreiddio Lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae rhan naw o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn am ragor o weithio mewn partneriaeth rhwng lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; rydym wedi dechrau gweld cynnydd ac mae'n bwysig nad ydym yn colli momentwm ar brosiectau yr ydym yn eu gweithredu a'u treialu yn lleol a rhanbarthol. Rydym yn gobeithio datblygu trefniadau rheoli llinell gwahanol yn y ddau dîm lechyd

a Gofal Cymdeithasol ac i weld a ellir cael model cynaliadwy ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu dros y 12 i 18 mis nesaf.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Mwy o gyflawni gwasanaeth diwriad rhwng lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gwasanaeth iechyd meddwl ac anabledd dysgu cynaliadwy ac integredig ym Mlaenau Gwent.
- Trefniant rheoli llinell gwahanol yn y timau lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Blaenoriaeth - *Symud Dulliau Gwahanol o Gyflawni Gwasanaeth Ymlaen*

Pam bod hyn yn bwysig?

Mewn cyfnod anodd rhaid i ni edrych ar gyflawni gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol i leihau baich y costau ar y Cyngor a'r cyhoedd. Bydd ystyried gwahanol ddewisiadau a modelau yn allweddol i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Caffi cymunedol annibynnol.
- Model Gofal Cartref ar sail perthynas yn cael ei darparu yn ein cynlluniau Gofal Ychwanegol.
- Gwasanaeth ailalluogi gwell yn defnyddio ein gwasanaeth Gofal Cartref presennol.

Blaenoriaeth - *Paratoi ar gyfer Gweithredu'r System Gwybodaeth Gofal Cymunedol newydd*

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi llawer o ffydd yng nghyflwyno'r system newydd hon i ddatrys y problemau cymhathu rhwng lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n hanfodol ein bod yn arwain y blaen o ran gweithredu'r system hon ym Mlaenau Gwent.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaeth?

- Symud yn ddiwriad o'r system TG DRAIG bresennol i'r CCIS newydd;
- Y staff yn dangos ymlyniad ac yn fodlon ar weithredu'r system newydd. Staff iechyd yn gadarnhaol am y system a'r hyn y gall ei gynnig iddynt.
- Staff engaged and satisfied with the implementation of the new system.

Cynnydd mewn cymhariaeth â blaenoriaethau

Rheoli ein Busnes

Rheoli Busnes	
Teitl Blaenoriaeth	Hunan Werthusiad
Cyflawni'r strategaeth ariannol tymor canolog trwy reolaeth ariannol strategol a gweithredol effeithiol	<p>Cyflawnwyd - Bu'r timau Cyllid yn llwyddiannus wrth sicrhau bod lefelau dyled yr Adran wedi parhau yn gyson ac ar lefel dderbyniol trwy eu proses fonitro dyled, cwblhawyd 1,300 o asesiadau ariannol cyn y dyddiad cau, sef 6 Ebrill, aed tu hwnt i'r targed incwm o eiddo o £150k gyda £209k o incwm yn cael ei greu hyd yn hyn. Mae'r Adran yn cadw at y targed o gyflawni ei tharged incwm CHS o £200k gyda £147k o incwm wedi ei greu hyd yn hyn a hawliadau posibl o £60k yn cael eu rhagweld.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu adroddiadau monitro cyllideb cyson yn unol ag amserlen Adnoddau Corfforaethol, sydd wedi galluogi'r Uwch Dîm Rheoli i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth gyflawni gwasanaeth, proses lwyddiannus fel y mae'r tanwariant a ragwelir o £475k yng nghyfnod 9 yn profi. Cefnogodd y Tîm weithredu'r holl FEP a chynorthwyo i'w monitro, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu cyflawni erbyn hyn, ac roedd yn cynnwys cyflwyno a chynnal polisi codi tâl Penodiadau yn llwyddiannus. • Rheolodd y Tîm drosglwyddiad derbynwyr arian y Gronfa Byw'n Annibynnol o Lywodraeth Cymru i'r Awdurdod Lleol yn llyfn gan gynnal y lefel bresennol o daliadau a sicrhau bod gohebiaeth gyson gryno a llawn gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r holl dderbynwyr.
Symud yr agenda cyd-weithio ymlaen gyda phartneriaid, iechyd yn arbennig	<p>Cyflawnwyd - Datblygwyd Cytundeb Fframwaith ar y cyd gan y Bwrdd lechyd a'r Awdurdodau Lleol gyda darparwyr allanol sy'n darparu gofal gyda chyllid cyhoeddus i Oedolion Iau (18-64) mewn Cartrefi Preswyl a Nyrsio lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.</p>

<p>Gwneud trefniadau i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Ebrill 2016</p>	<p>Cyflawnwyd - Parhau i weithio gyda Darparwyr Rheoli Gofal a Gofal Cartref i ddatblygu gwasanaeth sy'n rhoi pwyslais ar ddeilliannau a phrosesau sy'n galluogi comisiynu gwasanaeth gofal cartref sy'n rhoi pwyslais ar y deilliannau i unigolion. Cynhaliwyd gweithdy ar y cyd gydag adborth cadarnhaol yn cael ei roi mewn cyfarfodydd dilynol rhwng Comisiynu a Darparwyr yn barod ar gyfer y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Tîm wedi mynychu cyfarfodydd Llywodraeth Cymru ar Weithredu rhan 4 a 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd wedi galluogi'r Tîm i ddechrau gwaith paratoi yng nghyswllt y newidiadau fydd yn gorfod cael eu gweithredu, maent hefyd wedi bod yn allweddol wrth sefydlu grŵp rhanbarthol ar gyfer Swyddogion Asesu Ariannol i Gwent Fwyaf i rannu arfer cyffredin a chysoni polisiâu codi tâl.</p>
<p>Strategaeth "Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn yr 21fed Ganrif"</p>	<p>Cyflawnwyd - Mae blaenoriaethau strategol allweddol y Strategaeth Byw'n Annibynnol wedi cael eu gweithredu a'u rhannu gydag AGGC. Er mwyn cefnogi a phrofi'r gwelliannau datblygwyd cynlluniau gweithredu unigol ac maent yn cael eu hadolygu trwy gyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid allweddol. Yn dilyn adolygiad o Gartrefi Gofal gan y Comisiynydd Pobl Hŷn mae argymhellion arfer da a gwelliannau gwasanaeth wedi cael eu cynnwys yn y cynlluniau. Mae fforymau darparwr a thrafodaethau yn parhau i gael eu cynnal gyda phartneriaid allweddol gyda'r nod o ddatblygu contractau a chynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau i wella ansawdd a deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaeth fel sy'n cael ei ddynodi yn y cynllun busnes i wasanaethau Oedolion.</p> <p>Cafwyd trafodaethau ffioedd gofal llwyddiannus gyda darparwyr gofal annibynnol a Sefydliadau Trydydd Sector a chwblhawyd Cytundebau Lefel Gwasanaeth o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.</p> <p>Rheolodd y gwasanaeth y broses o gau Cartref Gofal Cwm Seren i bobl hŷn gan drosglwyddo'r preswylwyr yn llwyddiannus i lety gwahanol yn yr Awdurdod.</p>
<p>Sicrhau bod y System Wybodaeth Gofal Cymdeithasol (CCIS) yn addas i'r diben i gefnogi'r ddeddfwriaeth ac arferion newydd.</p>	<p>Cyflawnwyd - Sefydlwyd gweithgor rhanbarthol ar draws Gwent gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae'n cyfarfod yn gyson i ddechrau'r cyfnod cynllunio a llinell amser i'r prosiect i'w weithredu. Gohiriwyd y dyddiad gweithredu gwreiddiol, sef Medi 2016 hyd Ebrill 2017 er mwyn cael rhagor o amser i wneud y trefniadau terfynol ar fframwaith llywodraethiant Rhanbarthol a Chenedlaethol ar draws 29 o bartneriaid. Llwyddwyd i ddod i gytundeb i ymestyn y trefniadau contractaidd presennol am 12 mis arall o Ebrill 2016.</p>

<p>Sicrhau bod yr holl brosiectau Cyfnerthu ar gyfer Perfformiad a TG, Cyllid a Chomisiynu yn cael eu gweithredu.</p>	<p>Cwblhawyd - Daeth y model Cyfnerthu Perfformiad i rym eleni ac roedd yn cynnwys cyfuno'r timau perfformiad yn yr adrannau Corfforaethol, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cyfan wedi digwydd heb amharu nac effeithio ar y meysydd gwasanaeth. Fel rhan o hyn, fe ailstrwythurwyd y tîm sy'n cefnogi meysydd TG, Data a Gwelliant. Mae rhagor o waith i'w wneud eto i gwblhau'r gwaith o gyfnerthu perfformiad ac mae hyn yn cael ei ystyried ar y funud fel rhan o gam 2 i'w weithredu yn 2016. Yn ychwanegol at hyn, mae Tîm Incwm a Thîm Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol yn awr dan gyfrifoldebau rheoli'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau. Bydd cyswllt strategol yn cael ei gynnal gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cadw at y fframwaith statudol a chyfreithiol. Bydd y Tîm Comisiynu yn cael ei gadw dan y cyfrifoldeb rheoli am Wasanaethau Cymdeithasol.</p>
<p>Datblygu modelau gwahanol o ddarparu gwasanaeth</p>	<p>Cyflawnwyd - Cwblhawyd gwerthusiad o ddewisiadau ar gyfer y Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol gyda chymeradwyaeth i'r gwasanaeth barhau yn fewnol ac i archwilio cyfleoedd eraill gydag awdurdodau lleol yn 2016/17, pan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fydd holl effaith ac oblygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn hysbys; • Trafodaeth gynnar gydag awdurdodau lleol eraill i gadarnhau eu bwriad yn y dyfodol gyda'u trefniadau contractaidd presennol; • Effaith pensiynau yn y gweithle a materion cyflogaeth yn cael eu gwireddu yn llawn; ac • Y problemau sy'n parhau o ran archwiliadau ariannol mewnol yn cael eu cwblhau a'u gwerthuso i asesu'r risgiau posibl.



Rheoli ein Busnes

Categori - Rheoli Adnoddau a Chyllideb


Cynnydd a wnaed yn 2015/16

The total budget for the Department in 2015/16 was £37.9m and total expenditure was £37.6m. This resulted in an underspend of £326,682 for 2015/16 which is a significant reduction when compared to the 2014/15 underspend of £1.54m, and this has been due to an increase in the number of LAC which has resulted in an overspend against a budget of £727,000.

The Department has been successful in ensuring that the Department's debt levels remained constant and within an acceptable level. This was achieved through their debt monitoring process whereby 1,300 financial assessments were completed within the required deadline of 6th April. The provision of regular budget monitoring reports in line with the


Corporate Resources timetable has enabled the Senior Management Team to make informed decisions on service delivery. The Team has supported the implementation and assisted in the monitoring of all Financial Efficiency Projects, the majority of which have now been achieved, and included:

- cyflwyno a chynnal polisi codi tâl Penodiadau yn llwyddiannus.
- Ar gyfer incwm eiddo, y targed oedd £150,000 ac aed tu hwnt i hynny gyda £209,000 o incwm yn cael ei greu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Mae'r Adran hefyd wedi sicrhau bod unigolion sydd wedi eu hasesu fel rhai ag angen Gofal Iechyd Cynradd yn cael cyllid priodol.



Rheolodd y Tîm drosglwyddiad derbynwyr arian y Gronfa Byw'n Annibynnol o Lywodraeth Cymru i'r Awdurdod Lleol yn llyfn gan gynnal y lefel bresennol o daliadau a sicrhau bod gohebiaeth gyson gryno a llawn gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r holl dderbynwyr.

Mae'r siart isod yn dangos cyllideb 2015/16, gyda'r gwariant gwirioneddol wedi ei rannu yn ôl pob maes gwasanaeth. Fel mae'r siart yn dangos, mae'r maes gwariant mwyaf yn Gwasanaethau Oedolion a gostiodd £21,999,723 i'r Cyngor.



	Cyllideb	Gwariant
Plant	£9,231,400	£9,958,146
Oedolion	£22,951,540	£21,999,723
Rheoli Busnes / Cefnogaeth Staff	£5,750,320	£5,648,709
Cyfanswm	£37,933,260	£37,606,709

Cyllideb 2015/16 - Ebrill 2015 hyd Fawrth 2016

		Cyllideb (£)	Rhagolwg (£)	Amrywiad	
				(£)	(%)
1	Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol	2,791,340	2,575,104	216,236	7.75%
2	Plant sy'n Derbyn Gofal	3,975,830	5,038,380	-1,062,550	-26.73%
3	Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd	279,280	254,918	24,362	8.72%
4	Cyfiawnder Ieuentid	228,120	219,330	8,790	3.85%
5	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Eraill	1,956,830	1,870,414	86,416	4.42%
6	Pobl Hŷn 65 Oed a Throsodd	5,131,110	4,725,204	405,906	7.91%
7	Oedolion dan 65 oed gydag Anableddau Corfforol	59,310	40,428	18,882	31.84%
8	Oedolion dan 65 oed gydag Anableddau Dysgu	3,780,410	3,555,656	224,754	5.95%
9	Oedolion dan 65 oed gydag Anghenion Iechyd Meddwl	782,090	649,227	162,863	20.82%
10	Gwasanaethau Oedolion Eraill	313,830	300,850	12,980	4.14%
11	Gofal Cymunedol	12,884,790	12,758,357	126,433	0.98%
12	Costau Gwasanaeth Cefnogi a Rheoli	1,055,640	954,040	101,600	9.62%
13	Ad-daliadau Corfforaethol	4,694,680	4,694,669	11	0.00%
Y Cyfanswm		37,933,260	37,606,578	326,682	0.86%

Crynodeb o Gyllideb 2016/17

Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016/17 yw £38.9m sydd yn gynydd o £1m mewn cymhariaeth â chyllideb y flwyddyn flaenorol.

Cyllideb 2016/17

		Cyllideb (£)
1	Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol	2,866,220
2	Plant sy'n Derbyn Gofal	4,027,820
3	Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd	272,990
4	Cyfiawnder Ieuentid	228,140
5	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Eraill	1,934,320
6	Pobl Hŷn 65 Oed a Throsodd	5,166,260
7	Oedolion dan 65 oed gydag Anableddau Corfforol	38,650
8	Oedolion dan 65 oed gydag Anableddau Dysgu	3,806,720
9	Oedolion dan 65 oed gydag Anghenion Iechyd Meddwl	706,300
10	Gwasanaethau Oedolion Eraill	317,920
11	Gofal Cymunedol	12,573,320
12	Costau Gwasanaeth Cefnogi a Rheoli	1,086,640
13	Ad-daliadau Corfforaethol	5,915,510
Y Cyfanswm		38,940,810

Yn ychwanegol at y gyllideb, cymeradwywyd defnyddio cronfeydd wrth gefn gan y Cyngor hyd at £1.2m i ariannu'r cynnydd mewn costau gan ddarparwyr allanol yn dilyn gweithredu'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Rhagwelir

hefyd y bydd y cynnydd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn bwysedd ar y costau yn 2016/17 a bydd hyn yn cael ei fonitro yn ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Categori – Comisiynu a Phartneriaethau

Yn dilyn adolygiad lleol a Chenedlaethol o Gartrefi Gofal gan y Comisiynydd Pobl Hŷn i ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl yng Nghymru, rydym wedi cael ein sicrhau bod y gofynion camau gweithredu a ddisgrifir yn ein strategaeth a'n cynlluniau wedi dangos ymrwymiad i gyflawni'r deilliannau a fwriadwyd yn glir.

Dadansoddwyd bod ein holl ymatebion i'r gofynion am weithredu a ddynodwyd yn yr adolygiad yn "dderbyniol" gydag adborth adeiladol a chadarnhaol ar y gwaith o ddatblygu gwasanaethau a phrosesau newydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhagweithiol, a fydd â'r potensial i yrru arfer gorau yn ei flaen e.e. datblygu fframwaith 'Ansawdd Bywyd' a fydd yn gwella gallu'r Awdurdod Lleol i ddeall a monitro ansawdd bywyd trwy gasglu gwybodaeth gan breswylwyr ar agweddau o'r fframwaith hwn.

Fel rhan o'r strategaeth 'Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn

y 21fed Ganrif', mae fforymau darparwyr a thrafodaethau yn parhau i gael eu cynnal gyda phartneriaid allweddol gyda'r nod o ddatblygu contractau a chynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau i wella ansawdd a deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaeth fel sy'n cael ei ddynodi yn y cynllun busnes i wasanaethau Oedolion.

Cwblhawyd Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn yr amserlen y cytunwyd arni ar gyfer yr holl wasanaethau a gomisiynwyd gyda'r sector gwirfoddol a darparwyr annibynnol. Fel rhan o'r gwaith hwn cynhaliwyd dadansoddiad i ddeall a dynodi'r pwysau ariannol sylweddol presennol sy'n wynebu darparwyr a'r pwysau yn y dyfodol h.y. effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol a newidiadau eraill i reoliadau ar gyfer 2016 a thu hwnt.

Cynhyrchwyd Datganiad Sefyllfa yn y Farchnad (MPS) drafft (2015 i 2020) a'i rannu i randdeiliaid a darparwyr i ymgynghori arno. Dyluniwyd y Datganiad i gynnwys gwybodaeth a dadansoddiadau er budd darparwyr gwasanaethau gofal a chefnogi i oedolion ym

Mlaenau Gwent. Ei fwriad yw i helpu i ddynodi sut bydd y galw am ofal yn edrych yn y dyfodol a gweithredu fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau rhwng yr Awdurdod a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau.

Er i ni dderbyn peth adborth cadarnhaol "*Mae'r demograffig yn wych, yn ddefnyddiol iawn*", "*Adran dda ar fanylion y gwasanaethau presennol*" mae cyswllt â Darparwyr yn parhau i ddatblygu'r Datganiad ymhellach yng nghyswllt bwriadau comisiynu yn y dyfodol, a chynlluniau i ymdrin â'r galw am wasanaethau arbenigol fel gwasanaethau dementia mewn gofal cartref, cynorthwyo Darparwyr o ran cynllunio busnes a pharhad.

O ganlyniad i'r newid yn y galw am ofal preswyl ar draws y sector cyfan, mae'r adran wedi rheoli'r broses o gau Cartref Gofal Preswyl i Bobl Hŷn preifat. Symudwyd yr holl breswylwyr yn llwyddiannus i gartrefi gofal newydd gyda'r mwyafrif yn aros yn y Fwrdeistref a chafodd y cyfan ymweliadau ar ôl eu symud gan Reolwyr Gofal ac Eiriolwyr Age Cymru. Trefnwyd yr

ymweliadau hyn i sicrhau bod yr holl unigolion wedi setlo yn llawn a'u bod hwy a'u teuluoedd yn cael cyfle i fynegi unrhyw bryder neu broblem, "fe wnaeth Age Cymru fy helpu i ddod o hyd i le newydd i fyw".

Rydym wedi dechrau gweithio fel rhan o Grŵp Comisiynu Rhanbarthol ar y Cyd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf i ddatblygu a gweithredu rhaglen o weithgareddau comisiynu parthed gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn gan gyfeirio yn arbennig at Ran 2 y Ddeddf, y ddyletswydd i hybu modelau gwahanol o ddarparu gwasanaeth, a, Rhan 9, sy'n nodi'r meysydd hynny lle mae'n rhaid i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integreiddio darparu gwasanaeth, a'r meysydd hynny y mae disgwyl iddynt gyfuno eu cyllidebau.



Fel rhan o'r Grŵp Comisiynu Rhanbarthol rydym yn gweithio gydag arweinwyr comisiynu eraill ar draws yr awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol i ymdrin â darparu gwasanaeth gan ystyried y cyfarwyddyd cenedlaethol yn ogystal ag unrhyw flaenoriaethau a ddynodwyd yn rhanbarthol.

Rydym yn parhau i gymryd rhan ym mhrosiect cydweithredol cychwynnol y Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, sef System Sicrwydd a Pherfformiad Comisiynu Gofal (CCAPS).

Mae'r system gwybodeg yn galluogi datblygiad Cytundeb Fframwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol ar gyfer comisiynu cydweithredol ar ofal a chefnogaeth sy'n cael ei ariannu gan y pwrs cyhoeddus i bobl 18-64 oed, mewn cartrefi gofal gyda neu heb ofynion nyrsio, sydd ag anghenion o ran iechyd meddwl a/neu anabledd dysgu.

Rydym, yn rhagweithiol, wedi darparu a diweddarau gwybodaeth yn gyson ar gyfer datblygu'r fframwaith caffael a thendro a chymryd rhan mewn

digwyddiadau i randdeiliaid proffesiynol. Mae gan y prosiect ddyddiad 'mynd yn fyw' a ragwelir ar gyfer y Cytundeb Fframwaith ar 1 Hydref 2016 a bydd CCAPS yn cefnogi'r rheoli perfformiad parhaus ar ddarparwyr y fframwaith i gyflawni deilliannau buddiol i ddinasyddion.

Mae'r Grŵp Comisiynu ar y Cyd Rhanbarthol wedi cychwyn nifer o ffrydiau gwaith eraill a ddynodwyd yn flaenoriaethau wrth symud ymlaen, fel Gofal Cartref a dewisiadau eraill o ran llety i bobl hŷn. Mae'r gwaith, sy'n parhau, yr ydym yn ei wneud fel rhan o ffrwd gwaith llety pobl hŷn yn cynnwys:

- Asesu'r gallu presennol a rhagweld y galw
- Ystyried gor/tan ddarparu
- Dadansoddiad o'r ystod o ofynion o ran llety
- Asesiad o'r dewisiadau o ran datblygu rhanbarthol
- Datblygu safonau comisiynu ar y cyd
- Datblygu prosesau sicrhau ansawdd a monitro contractau

Categori - Rheoli Gweithlu

Daeth Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Blaenau Gwent a Chaerffili yn hollol integredig yn 2014. Mae'r gwasanaeth arloesol hwn yn parhau i symud ymlaen gan wasanaethau 5000 a mwy o staff Sector Gofal. Rhai o'r manteision a wireddwyd a llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf yw:

- Gweithredu fel arweinydd i gyflwyno Cynllun Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Gwent Fwyaf cyntaf erioed.
- Gwneud y mwyaf o'r holl leoedd sy'n cael eu cyllido a ddyrannwyd i Weithwyr Cymdeithasol gymryd rhan yn y fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus.
- Chwarae rhan flaenllaw wrth sefydlu fframwaith cyfathrebu rhwng y gwasanaethau trawsnewid rhanbarthol a datblygu gweithlu.
- Gwesteio rhaglen i ôl-raddedigion 'Asesydd Budd Gorau' a gyflwynwyd yn lleol.
- Sicrhau'r cyllid allanol mwyaf posibl ar gyfer cymwysterau gofal cymdeithasol, trwy wella'r trefniadau partneriaeth

gyda cholegau lleol a greodd gynnydd o dros 200% yn y nifer a wnaeth gofrestru ac a aseswyd.

- Darparu cyfleoedd hyfforddi i bobl leol ddi-waith sydd am weithio ym maes gofal, ar y cyd â Chymunedau yn Gyntaf Blaenau Gwent.
- Hyfforddi gweithwyr Gofal Cartref Blaenau Gwent i fedru dangos sgiliau gofal i ofalwyr anffurfiol.
- Lansiodd gwefan datblygu gweithlu ar y rhyngwyrdd newydd oedd yn cynnwys gwell cyfleusterau chwilio, addasu yn awtomatig i ddyfeisiadau symudol, dyluniad effeithiol, a rhyddid mynediad parhaus i bawb.
- Ychwanegwyd 196 at y nifer gynyddol o Gyfeillion Dementia trwy hyfforddi Lladmeryddion Dementia.

Y prif bwyslais ar gyfer y Gwasanaeth Datblygu Gweithlu yn ystod y flwyddyn oedd paratoi ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r cyfnod hyd at 6 Ebrill 2016 pan ddaeth y Ddeddf i rym. Roedd Llywodraeth

Cymru am i raglen hyfforddi gael ei chyflwyno yn rhanbarthol a llwyddodd Blaenau Gwent i gyrraedd yr holl dargedau gan Lywodraeth Cymru o ran hyfforddiant yn gysylltiedig â'r Ddeddf

Mae Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Blaenau Gwent:

- Wedi cael eu hannog gan yr ymrwymiad lleol i wneud y mwyaf o bob cyfle i ddysgu;
- Wedi cael budd o raglenni hyfforddi cenedlaethol a lleol; ac
- Wedi dylanwadu ar gyfeiriad cenedlaethol y buddsoddiad mewn datblygu gweithlu.


Ar gyfer 2016/17 mae'r Gwasanaeth Datblygu Gweithlu yn gweithio tuag at:

- Symud ymlaen â'r manteision o gydweithio yn rhanbarth Gwent Fwyaf gan gynnwys cyfleoedd ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; parhau i gefnogi gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a newidiadau deddfwriaethol eraill;
- Gwelliannau i'r wefan wedi eu harwain gan y cwsmeriaid;

- Dulliau modern o ymdrin â hyfforddi a datblygu; a
- Datblygu strategaeth ar gyfer cymhwys a datblygu gweithwyr cymdeithasol.

Categori – Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd

Daeth y model Cyfnerthu Perfformiad i rym eleni ac roedd yn cynnwys cyfuno'r timau perfformiad yn yr adrannau Corfforaethol, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cyfan wedi digwydd heb amharu nac effeithio ar y meysydd gwasanaeth. Yn Rhagfyr 2015 cytunwyd i'r Tîm Incwm a Thîm Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol fynd dan gyfrifoldebau rheoli'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau i gyfnerthu'r gallu hwn.



Sialensiau yn 2015/16

Mae Rheoli Busnes wedi wynebu nifer o sialensiau allweddol eleni: Mae'r prif sialensiau i'r gwasanaeth yn ymwneud â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn bennaf cysoni pob polisi a gweithdrefn yng nghyswllt codi tâl ac asesu ariannol trwy Gwent Fwyaf i gyd, dehongli a gweithredu canllawiau a chodau ymarfer, a phennu'r effaith ariannol y bydd y newidiadau yn y Ddeddf yn eu cael ar greu incwm.

Trwy gydol 2015/16 roedd gweithredu'r polisi codi tâl ar gyfer Penodiadau yn broblemus oherwydd natur y grŵp cleientiaid a'r pryderon a godwyd am godi tâl ar oedolion agored i niwed, arweiniodd hyn at weithredu dull prawf modd. Yn ychwanegol mae nifer o ofynion data newydd y bydd angen eu datblygu trwy gydol y flwyddyn.

Bu'r prosiectau cyfnerthu a'r hinsawdd ariannol presennol yn y Cyngor yn heriol o ran ysbryd


y staff a cheisio eu sicrhau trwy gyfnod anodd. Mae cyflwyno gweithio hyblyg hefyd wedi bod yn heriol, gan geisio rheoli logisteg gyda'r amgylchedd gwaith newydd a phrinder desgiau.

Gwelwyd nifer o sialensiau comisiynu trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys cau Cartref Gofal Cwm Seren i bobl hŵn, perfformiad gwael darparwr gofal cartref, y newidiadau i staff y Bwrdd Iechyd a'r rolau a effeithiodd ar ein trefniadau monitro contract ar y cyd ar gyfer Cartrefi Gofal i bobl hŵn. Oherwydd bod setliad y gyllideb yn hwyr mae hyn wedi creu ansicrwydd yn y farchnad o ran Darparwyr a'r 3ydd Sector h.y. ddim yn gwybod os bydd cyllid ar gael.

Mae'r sialensiau allweddol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol yn canolbwyntio ar i'r Awdurdod Lleol barhau i gynyddu'r nifer o ddinasyddion mewn cymhariaeth â phriodoldeb, gallu a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn llwyr â'r Ddeddf.

Mae mapiau proses a systemau yn eu lle fel bod staff yn gwybod beth i'w wneud a phryd, ond weithiau oherwydd 'diotalwch', ni fydd prosesau yn cael eu dilyn ac nid yw gwybodaeth yn cael ei rhannu.

Er bod llawer o waith yn cael ei wneud i ddatblygu cynlluniau busnes, mae gwaith i'w wneud eto o ran perchenogaeth a defnyddio cynlluniau Cyfarwyddiaeth. Cynhaliwyd archwiliad ansawdd data Swyddfa Archwilio Cymru yn gynnar yn 2016 a dynododd broblemau o ran ansawdd rhai dangosyddion cenedlaethol a'u casglu. Bu'r fîm perfformiad wedi ei gyfnerthu yn effeithiol iawn ond mae wedi creu llawer o waith i'r fîm canolog gyda llai o allu.



Cofrestr Risgiau'r Gyfarwyddiaeth

Risg	Rheolaeth Bresennol	Sgôr	Camau Pellach Arfaethedig
<p>Ariannol Diffyg gallu ariannol i fodloni'r cymhlethdod a'r galw cynyddol ar Wasanaethau Cymdeithasol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gweithdrefnau rheoli ariannol cadarn yn eu lle gan gynnwys gwneud y mwyaf o incwm a monitro cyllideb. Rhoi adroddiadau manwl ar berfformiad sy'n cynnwys data misol am y galw. Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eu dynodi yn faes sy'n cael blaenoriaeth yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolog. 	6	<ul style="list-style-type: none"> Blaenoriaethu a chynllunio gwasanaeth. Cosbau gwariant yn eu lle ac yn cael eu hadolygu yn gyson. Datblygu trefniadau ar y cyd ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> Gwasanaeth Mabwysiadu ar y Cyd lechyd Meddwl Anableddau Dysgu Datblygwyd cynllun prosiect manwl ar gyfer pob cynnig i arbed arian. Bydd gwasanaethau ataliol e.e. Tîm Adnoddau Cymunedol a Theuluoedd yn Gyntaf yn ymdrin â phroblemau yn gynnar o ran anghenion gofal/lles. Ymwneud â'r trydydd sector/ sefydliad cymunedol yn rhan o'r agenda atal.
<p>Ariannol Cyllid ddim wedi ei ddynodi i brynu a gweithredu'r system TGC gofal cymdeithasol newydd – CCIS.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn rhan o'r fîm prosiect lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a'r trefniadau llywodraethiant i rannu gwybodaeth a chysoni systemau a phrosesau. Trosglwyddo data. Sefydlwyd grwpiau tasg a gorffen rhanbarthol. 	6	<ul style="list-style-type: none"> Derbyniwyd cadarnhad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llywodraeth Cymru am ddyfarnu contract a chyllid ychwanegol a fydd yn talu am unrhyw gyfalaf ychwanegol am y caledwedd TGC. Yn gweithio ar hyn o bryd ar gynllun gweithredu rhanbarthol ar draws Gwent i fynd yn fyw yn Ebrill 2017. Sicrhodd ADSS adnoddau ychwanegol a chyllid i gefnogi gweithrediad cenedlaethol y system CCIS.

Risg	Rheolaeth Bresennol	Sgôr	Camau Pellach Arfaethedig
<p>Cymdeithasol Methu sicrhau bod trefniadau diogelu digonol yn eu lle ar gyfer pobl agored i niwed ym Mlaenau Gwent.</p> <p>Mae'r risg hefyd ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent. Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru. Eitem sefydlog ar agenda CMT. Grŵp gwersi a ddysgwyd ac adolygu lleol. Mae gan y cyfarwyddwr gyfrifoldeb corfforaethol am ddiogelu. Dynodwyd Aelod Gweithredol Arweiniol ar ddiogelu. Proses a chydlynodd diogelu oedolion yn eu lle yn unol â phroses Cymru gyfan. Cynhaliwyd cyfarfod craffu ar y cyd Diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a Byw'n Weithgar. 	8	<ul style="list-style-type: none"> Penderfynu ar gwmpas fîm Diogelu Oedolion a Phlant. Ystyried y posibilrwydd am ganolfannau diogelu amlasiantaethol rhanbarthol. Byrddau Rhanbarthol Oedolion a Phlant. Arian ar gael i Weithiwr Cymdeithasol yn y Tîm Diogelu Oedolion i gefnogi'r fîm i ddefnyddio ymyrraeth gwaith cymdeithasol gyda'r pwyslais ar y deilliant.
<p>Busnes Torri protocolau rhannu data ar gyfer gwasanaethau a rennir/trefniadau ar y cyd pan fydd gwybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei gweld trwy offer nad ydynt yn rhai Blaenau Gwent.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dim dyfais rhwydwaith nad yw'n cael ei rheoli i'w chaniatáu Trefniadau ar y cyd/cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer cyflawni gwasanaeth gan gynnwys protocol data. Yr holl drefniadau gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â gofynion PSN h.y. dyfeisiadau rhwydwaith a reolir. 	9	<ul style="list-style-type: none"> Pob sefydliad i lofnodi cytundeb trydydd parti ar fynediad i rwydwaith. Rheoliadau Personél – BPSS (Gwiriadau personél). Rheoliadau Technegol – Aventail SSL VPN gyda gwiriadau deuol. Polisi cloi cyfrifiaduron (Templedi Gwaelodlin Polisi Grŵp). Rheoli mynediad i'r hawliau a'r adnoddau TG lleiaf sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith. Dim cadw data sensitif yn lleol. Cyfrifon Unigol. Gliniaduron wedi eu hamgryptio. Atal Colledion Digidol. Rheolaeth Ffisegol – Swyddfeydd ar Glo/ Cardiau Mynediad. Rheoliadau Gweinyddol – cytundeb 3ydd parti/ISP gyda sicrwydd WASPI/Cofrestr Risg.

Risg	Rheolaeth Bresennol	Sgôr	Camau Pellach Arfaethedig
<p>Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn methu symud gweithio mewn partneriaeth ymlaen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Integreiddio'r Tîm Datblygu Gweithlu ar y cyd gyda Chaerffili. Trefniadau ar y cyd trwy Gynllun Gwella Cydweithredol De Ddwyrain Cymru. Gwasanaeth Mabwysiadu Gwent gyfan. Partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. 	6	<ul style="list-style-type: none"> Angen i ddynodi trefniadau cydweithio yn y dyfodol (Gwasanaeth Maethu ar y Cyd). Parhau i gryfhau perthynas waith a hybu gweithio mewn partneriaeth trwy'r amrywiol Fyrddau prosiectau ar y Cyd. Parhau i geisio cefnogaeth yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.
<p>Partneriaeth Integreiddio aneffeithiol gydag Iechyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Llywodraethiant trwy Bartneriaeth Integredig (IP). Llesgedd ar draws Gwent. Symud i'r Ganolfan Adnoddau Busnes lle mae'r Tîm Gofal Cymunedol y Gorllewin a Nyrso Ardal. Symud i Anvil Court ar gyfer tîm Gofal Cymunedol y Ddwyrain a Nyrso Ardal. 	6	<ul style="list-style-type: none"> Mae prosiect treialu yn cael ei gynnal yng Ngogledd Caerffili ar fodel newydd ar gyfer Iechyd Meddwl. Bydd yr hyn a ddysgir o'r prosiect hwn yn sail ar gyfer gweithredu'r model yn lleol yn dilyn gwerthuso'r cynllun peilot. Datblygwyd prosiect treialu ym Mlaenau Gwent ar fodel newydd ar gyfer Anableddau Dysgu. Bydd yr hyn a ddysgir o'r prosiect hwn yn cael ei rannu gydag awdurdodau eraill Gwent.
<p>Busnes Llai o staff yn golygu nad ydym yn gallu cyflawni swyddogaethau craidd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cydymffurfio â phrosesau monitro absenoldeb. Ailstrwythuro timau rheoli gofal gan gynnwys integreiddio timau i ddarparu gallu ychwanegol. 	6	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i gefnogi rhaglen Drawnewid Blaenau Gwent gan gynnwys y prosiectau cyfnerthu amrywiol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Risg	Rheolaeth Bresennol	Sgôr	Camau Pellach Arfaethedig
<p>Busnes Arweiniodd Dyfarniad yr Uchel Lys at gynnydd anferth yn y ceisiadau caniatâd Camau Diogelu Amddifadu o Ryddid.</p> <p>Mae'r risg hefyd ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cyflogi dau Asesydd Buddiannau Gorau yn nhîm Camau Diogelu Amddifadu o Ryddid. Gweithredwyd offeryn sgrinio er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd mewn mwyaf o risg. 	9	<ul style="list-style-type: none"> Yr holl sefydliadau partner i roi secondiad i aelod o staff i dîm Camau Diogelu Amddifadu o Ryddid Gwent i fodloni'r galw a'r ôl-groniad o waith.
<p>Deddfwriaeth Bydd methiant i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn llawn er mwyn trawsnewid gwasanaethau yn arwain at wasanaethau ymatebol a heb eu cynllunio a risg sylweddol i enw da.</p> <p>Mae'r risg hefyd ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sesiynau ennyn ymlyniad staff. Hyfforddiant i staff am y Ddeddf. Cyfathrebu cyson trwy ACRF a Blog y Cyfarwyddwr. Cysylltu â chyfarwyddiaethau eraill a phartneriaid statudol ac anstatudol. 	9	<ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant pellach penodol ac wedi ei dargedu i gael ei ddynodi.

Yr Iaith Gymraeg - "Mwy na geiriau"

'Mwy na geiriau': Cyhoeddwyd Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' yn 2012 gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal a bod pobl sydd angen gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael eu cynnig. Gelwir hyn yn 'Gynnig Gweithredol'. Yn ystod 2015/16 mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent, trwy ei grŵp cyflawni, wedi parhau i ymwreiddio'r strategaeth trwy: Making sure we offer an improved Welsh language service for the citizens of Blaenau Gwent.

- Sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gwell i ddinasyddion Blaenau Gwent
- Casglu data a gwybodaeth ar argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn y gwasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio.
- Darganfod a yw pobl mewn gwasanaeth a reoleiddir

yn cael gwasanaethau yn Gymraeg ar hyn o bryd a sefydlu sut y byddent yn hoffi i'r gwasanaethau gael eu cyflawni yn y dyfodol.

Beth ydym wedi ei wneud yn 2015/16?

- Rydym wedi asesu sgiliau iaith ein gweithlu Gofal Cymdeithasol.** Yn ystod 2015/16 gofynnodd yr Awdurdod Lleol i'n gweithwyr 'beth yw eich dewis iaith' a 'pa sgiliau Cymraeg sydd gennych i gefnogi ein cwsmeriaid gofal cymdeithasol?' Rydym wedi cynnal ymarfer tebyg gyda'n darparwyr gofal cymdeithasol a gomisiynwyd a gyda'n gilydd rydym wedi dynodi'r staff a'r gwasanaethau sydd yn cefnogi ein siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Rydym hefyd wedi casglu manylion am gyfleoedd diwylliannol, digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg y mae ein darparwyr yn eu hwyluso - gan gynnwys dathliadau o ddiwylliant

Cymru, mynediad at gyfryngau Cymraeg ac unrhyw ryngweithio Cymraeg rhwng staff a'r rhai sy'n derbyn ein gwasanaethau.

- gan gynnwys dathliadau o ddiwylliant Cymru, mynediad at gyfryngau Cymraeg ac unrhyw ryngweithio Cymraeg rhwng staff a'r rhai sy'n derbyn ein gwasanaethau. **staff wedi ymwreiddio'r 'Cynnig Gweithredol'** fel rhan o'n 'Sgwrs Beth sydd o Bwys'. Rydym wedi sicrhau bod ein hasesiadau cymesur ac integredig yn cofnodi iaith ddewisol y dinasyddion a bod staff yn ein gwasanaeth cyswllt yn hybu'r 'cynnig gweithredol' yn weithredol fel rhan o'r rhyngweithio rhyngddynt.
- Rydym wedi **adolygu ein rhestr gyswllt o staff** sy'n gallu cefnogi cwsmeriaid pan fydd y Gymraeg yn ddewis iaith iddynt ac yn gwybod pwy sydd ar gael i gynnal asesiadau os bydd angen.
- Bydd sgiliau Cymraeg staff yn cael eu hystyried pryd bynnag y bydd swydd yn cael ei hysbysebu ac mae'n ganolog i'n prosesau recriwtio corfforaethol.

- Rydym wedi parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu i'n staff sy'n **eu hannog i ddod yn ddysgwyr Cymraeg hyderus**. Rydym wedi dyrannu lleoliadau hyfforddi penodol ar gyfer ein Gweithlu Gofal Cymdeithasol sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg ac wedi gweithio gyda'n Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol i ddatblygu cyfleoedd dysgu penodol i staff Gofal Cymdeithasol gyda gallu amrywiol yn yr iaith. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau 'blasu', briffio staff a chysiau hyfforddi ffurfiol.
- I baratoi at weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg, rydym wedi bod yn gweithio gyda'n cydweithwyr corfforaethol i ddatblygu a gweithredu polisiau, gweithdrefnau ac arferion gwaith er mwyn i ni fodloni'r safonau. Rydym hefyd wedi codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofynion y safonau trwy sesiwn briffio i uwch reolwyr gan gynnwys yr holl Reolwyr Gofal Cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol allweddol ar draws pob rhan o'r adran.

Edrych Ymlaen i 2016/17

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Derbyniodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014 ac mae'n gosod fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Egwyddorion allweddol y Ddeddf yw hybu annibyniaeth a chydaddoldeb, gwella mynediad at wasanaethau a'u safon, a sicrhau cod ymarfer clar i ofal cymdeithasol a'i asiantaethau partner ar draws Cymru. Er y bydd disgwyliadau'r Ddeddf yn cael effaith ar bob maes o'r gwasanaeth y mae'n ei gwmpasu mae llawer o'r gwaith yr ydym wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gweithio tuag at yr egwyddorion hyn.

Mae'r Ddeddf yn newid y modd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r modd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu,

bydd gan bobl fwy o lais yn y gofal a'r gefnogaeth y byddant yn eu cael. Mae hefyd yn hyrwyddo ystod o gymorth sydd ar gael yn y gymuned i leihau'r angen am gefnogaeth ffurfiol, wedi ei chynllunio.

- Bydd gwasanaethau ar gael i roi'r gefnogaeth iawn ar yr amser iawn.
- Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael.
- Bydd asesu yn symlach a chymesur.
- Bydd gan ofalwyr hawl cyfartal i gael eu hasesu am gefnogaeth.
- Bydd pwerau cryfach i gadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae'r Ddeddf yn ceisio cefnogi pobl yn gynnar fel na fydd arnynt angen cefnogaeth fwy dwys yn nes ymlaen. Mae hyn yn ganolog i'r gwaith rhwng y Timau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg a



Gwasanaethau Plant, sydd â dull sy'n rhoi pwyslais ar y plentyn i wella deilliannau i blant a'u teuluoedd trwy ddarparu hawliau gwasanaeth allweddol.

Mae cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddatblygiad cyffrous gyda'r gwaith yn parhau i fodloni ei ofynion trwy gydol 2016/17, fel y nodwyd ym mlaenoriaethau allweddol y meysydd gwasanaeth.

Mae gwybodaeth ar gael ar Wefan y Cyngor Gofal a fydd hefyd yn cynnig dolenni at Lywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol – y ddolen yw <http://www.cgymru.org.uk/y-ddeddf>

Blaenoriaethau Allweddol 2016/17

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 wedi eu gosod yn unol â'r pwyntiau allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys parhau i ddatblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar, hyrwyddo annibyniaeth, diogelu plant ac oedolion bregus, a deilliannau cadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal mewn cyfnod o gyllidebau tynnach.

Fel adran ein dwy brif flaenoriaeth fydd:

- Rheoli o fewn y gyllideb.
- Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sicrhau bod y gweithlu yn barod.

Gwasanaethau Plant

- Yr holl dimau i gyfrannu at wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal.
- Yr holl dimau i gyfrannu at leihad diogel yn y niferoedd o blant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, blynyddoedd cynnar a chwarae yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chefnogaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Pob fîm i sicrhau bod plant a phobl ifanc Blaenau Gwent yn cael eu diogelu.
- Rhaid i'r gweithlu ddeall a chyflawni'r gofynion dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gwasanaethau Oedolion

- Rheoli Cyllideb ac Arbedion.
- Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Dal i weithredu 'Strategaeth Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn yr 21fed Ganrif'.
- Symud ymlaen i Integreiddio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Symud Dulliau Gwahanol o Gyflawni Gwasanaeth Ymlaen.
- Paratoi ar gyfer Gweithredu'r System Gwybodaeth Gofal Cymunedol yn Ebrill 2017.



Os oes arnoch angen unrhyw wybodaeth bellach neu fod gennych adborth yr ydych yn dymuno ei rannu, os gwelwch yn dda:

Ysgrifennwch atom ni:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor
Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
Llys Einion,
Stryd yr Eglwys,
Abertyleri,
NP13 1DB

Ffoniwch ni:

(01495) 355 262

Anfonwch e-bost:

liz.majer@blaenau-gwent.gov.uk

Ewch i'n gwefan:

www.blaenau-gwent.gov.uk

